


ECO'R WYDDFA

RHIF 291

Gorffennaf 2002

PRIS 40c



Ble mae'r arwydd hwn? Trowch i dudalen 2 i gael ateb annisgwyl.

Ailgylchu yn Cynyddu



Dylan Roberts, Huw Morris a Mark Roberts o Antur Waunfawr – Ailgylchu yn didoli papur swyddfa ar gyfer ei ailgylchu.

Bu cynnydd sylweddol mewn ailgylchu cymunedol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Yn ôl ffigurau sydd newydd eu cyhoeddi gan Antur Waunfawr roedd y cyfanswm pwysau a ailgylchwyd ganddynt yn ystod y flwyddyn ariannol 2001/02 yn 775,810kg – cynnydd o 14% o'i gymharu â'r flwyddyn ariannol gynt.

Mae Antur Waunfawr – Ailgylchu, mewn partneriaeth gyda Chyngor Gwynedd a chyd a cefnogaeth y Gronfa Cymunedol (Loteri), yn gwasanaethu 21 safle ailgylchu cymunedol yn ardal Arfon ar ran Cyngor Gwynedd i gasglu papurau newydd, gwydrau a chaniau. Mae Antur Waunfawr hefyd yn casglu ac ailgylchu papurau swyddfa, cetrils llungopiwr a dodrefn.

Bu'r cynnydd amlycaf mewn ailgylchu gwydr, dodrefn a phapur, gyda'r pwysau gwydr yn codi 28% i 102,280kg; a'r pwysau papur a gafodd ei ailgylchu yn codi bron 9% i 446,480kg. Gwelwyd y cynnydd mwyaf mewn ailgylchu dodrefn wrth i'r nifer a ailgylchwyd ddyblu i 1700 citem o ddodrefn y llynedd. Mae Antur Waunfawr wedi agor Storfa a Siop Ddodrefn yn Cibyn, Caernarfon lle mae'n casglu dodrefn nad ydi trigolion yr ardal eu hangen

mwyach, ac yna eu trin neu eu trwsio fel bo'r angen, cyn eu gwerthu am bris rhesymol.

Dengys y ffigurau felly fod ailgylchu cymunedol yng Ngwynedd yn mynd o nerth i nerth, sy'n cyd-fynd â chynlluniau'r llywodraeth i gynyddu'r canran o wastraff sy'n cael ei ailgylchu drwy Brydain. Serch hynny, bydd angen cynnydd rheolaidd yn y gwaith ailgylchu dros y blynyddoedd nesaf i gyfarfod targedau uchelgeisiol fydd yn ein hwyncebu yng Nghymru yn 2003/04 a 2006/7.

Bwriad Antur Waunfawr yn ystod y flwyddyn nesaf fydd ehangu'r adran ailgylchu drwy agor canolfan ailgylchu fwy ar Stad Cibyn mewn adeilad newydd pwrpasol a 'gwydd' a fydd yn ymestyn y gwasanaethau sydd ar gael.

Am ragor o fanylion ffoniwch Jen Rowlands neu Huw Davies ar (01286) 650721.

Golygyddion Newydd yr ECO

Gan gychwyn â'r rhifyn nesaf bydd Golygyddion newydd yn gyfrifol am yr Eco. Cafwyd ymateb calonogol i'r apêl ddiweddar am wirfoddolwyr i ymgymryd â'r golygu ac fe fydd y tîm newydd yn cychwyn ar eu tasg gyda rhifyn Medi.

Bu'r Parch John Pritchard a minnau yn cyflawni'r gwaith ers bron i ddeg mlynedd bellach, a buom yn gyfrifol am lywio dros gant o rifynnau o'r papur drwy'r wasg. Bu'r dasg yn un hynod o bleserus, ond roedd bellach yn amser i griw newydd, ieuengach gymryd drosodd ac rydym yn falch iawn o groesawu'r tîm newydd ar ran yr Eco, ac yn dymuno'n dda iddynt yn eu gwaith.

IWAN ROBERTS

Dathlu pen-blwydd yn 30 oed



Dafydd Wigley a Dr Gareth Roberts yn edrych ymlaen at barti pen-blwydd Amgueddfa Lechi Cymru. Llanberis yn 30 oed.

ECO'R WYDDFA

RHIF 291
GORFFENNAF

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Gibyn, Caernarfon

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Golygyddol:

IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
Ffôn: (01286) 675649

Cadeirydd Pwyllgor Llywio:
ARWEL JONES
GAE EBONI, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 871274

E-bost: ecorwyddfa@AOL.com

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

DYDDIADUR Y MIS

FFOTOGRAFFWR

Gwyndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION

John Roberts, Bedw Gwynion, Ffordd
Glanffynnon, Llanrug (675605)

TREFNYDD BWNDELU

Jean Jones, Gesail y Mynydd,
Deiniolen (871550)

TRERFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHANT POST

Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach,
Llanrug (650200)

TREFNYDD PLYGU

Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650788)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DEINIOLLEN: W. O. Williams,
6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts,
Becws Eryri (870491)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn
(675384)

NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant
Ffynnon (871820)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth
(872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon,
Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

NOS LUN, AWST 19

Os gwelwch yn dda

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg

NOS IAU, AWST 29

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr. (01286) 650570

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu a
Medi Hydref Tachwedd Rhagfyr	Awst 19 Medi 16 Hydref 21 Tachwedd 18	Awst 29 Medi 26 Hydref 31 Tachwedd 28	Dinorwig Penisarwaun Llanberis Caethro	Miss Marian Jones Mrs Ann Evans Mr Gwilym Evans Mr Clive James

Llythgrau

Hafan
Cacathro

Annwyl Ddarllenwyr

Bedyddwyr Cymraeg o'r

Wyddfa ym Montreal

Yn ystod ymweliad diweddar â
dinas Montreal roedd yn
syndod mawr i mi ddarganfod
fod gorsaf ar y rhwydwaith
'metro' o'r enw *Snowdon*.

Felly, roedd rhaid ymweld â'r
ardal! Nid yn unig gorsaf, ond
Ward ar gyngor y ddinas ac enw
ardal. Hefyd ceir '*Snowdon
Street*', neu erbyn heddiw '*Rue
Snowdon*'. Yr eglwys agosaf yw
eglwys y Presbyteriaid hefo'i
gwreiddiau yn yr Alban. Ond, ar
gornel strydoedd Isobella ac
Eastcliffe, saif '*Eglise Snowdon
Baptist Church*' - sefydliad
dwyieithog!

Ydy darllenwyr Eco'r
Wyddfa yn gwybod tarddiad yr
enw? A oes teuluoedd
Bedyddwyr Cymreig o ardal Yr
Wyddfa wedi sefydlu yn yr ardal
ac wedi gadael dim ond yr enw
ar dirwedd y ddinas?

Yn gywir iawn,
Clive James

Y Bryn
Pandy Tudur
Abergele

Annwyl Ddarllenwyr,
Rwy'n fyfyrwr ym Mhrifysgol
Cymru, Bangor ac yn casglu
deunydd ar gyfer fy nhraethawd
hir yn y flwyddyn academiaidd
nesaf. Pwnc fy nhraethawd yw
'Cyfraniad Mudiad Urdd
Gobaith Cymru i Gerddoriaeth
Cymru' gan ganolbwyntio'n
benodol ar yr Eisteddfod a'r
Gwersylloedd yn ogystal â
gweithgareddau cerddorol eraill
oddi mewn y mudiad megis
Jambori ac ati.

Byddaf yn hynod ddiolchgar
os oes gan unrhyw un ohonoch
luniau, tapiau, fideo neu gopiâu
o'r caneuon cynnar yr arferwyd
eu canu yn y gwersylloedd,
atgofion lu am eich profiadau
yn y Gwersylloedd neu
Eisteddfodau cynnar / diweddar
- unrhyw ddeunydd a fyddai o
fudd imi ysgrifennu fy
nhraethawd hir.

Os byddai rhai ohonoch yn
fodlon fy nghynorthwyo trwy
gyfweiliad anffurfiol, byddwn yn
hynod ddiolchgar petaech yn
ymateb.

Cewch ddanfôn unrhyw


Peidiwch gori ar stori.
Anfonwch hi i'r ECO

LLYSIAU, FFRWYTHAU, BWYDYDD
AC ANGHENION ANIFEILIAID ANWES

GARTH MAELOG

51 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: **870840**



wybodaeth imi i'r cyfeiriad
uchod neu trwy gyfrwng e-bost.

Taer erfyniaf am unrhyw
ddeunydd boed yn un atgof
bach neu'n lu o atgofion melys.
Diolch o galon

Yn gywir a diffuant iawn
Delyth Vaughan

e-bost: weu801@bangor.ac.uk

Brian a Rita
Henderson

SIOP Y PENTREF

WAUNFAWR

Ffôn: **650589**

- Holl docynnau'r Loteri
Genedlaethol
- Cyflenwyr bwyd
anifeiliaid - 'bulk' a
rhydd - y rhataf yn lleoli
- Nwyddau groser,
alcohol, cardiau MANWEB
- 'Paypoint' ar gyfer talu
bob math o filiau



Ar Ben Arall y Lein

Tydi'n hir yn cynhesu. Dyna'r gwyn rwyn glywed yn aml eleni ac, i ddweud y gwir, mae'n beth sy'n gallu effeithio ar 'sgota'n ddifrifol. Os oes un peth rwyf wedi'i ddysgu ar hyd y blynnyddoedd – os yw'r gwynt i fyni'r afon yna'r lle gorau i fod ydi yn y tŷ neu yn gwneud rhyw ychydig yn yr ardd.

Fel yr adroddais y mis diwcthaf, araf iawn yw pethau'n dal i fod ar y Seiont. Fel yna y bydd hi tan ddiwedd Mehefin (ar ôl iddi gynhesu) pan fydd y 'sgotwrs nos yn troi allan i chwilio am y sewin. Dyna rai o'r yw'r rhain, ac mi ydw i yn un ohonynt. Cychwyn allan pan mae'n tywyllu a phawb arall yn meddwl troi am y gwely. Ond wrth gwrs dyna yw'r wefr, gobeithio bachu bar o arian yn y tywyllwch, a hwnnw'n neidio i bob cyfeiriad. Mae sewin yn y badell yn fwy blasus na'i gefnder enwocach, yr eog.

Yn anffodus nid wyf wedi cael cyfle yn y dyddiau diwethaf i gerdded glannau pyllau sewin yr afon sef Garnage, Engan, Distaw a Doctor, ond cefais alwad ffôn ar 22 Mehefin i ddweud fod y sewin mawr cyntaf wedi eu gweld yn y Garnage. Dyna ddiwedd felly ar fynd i'r gwely ar amser rhesymol am rhyw ddeg wythnos o leiaf.

Er bod y stocio'n cario 'mlaen yn Dywarchen, araf iawn yw pethau'n dal i fod. Mae rhai'n awgrymu mai dim ond dŵr a dim pysgod sy'n cael eu stocio. Yma hefyd wrth gwrs mae'r tywydd yn chwarae rhan fawr. Rhaid cynhesu cryn dipyn cyn i'r fan yma 'sgota ar ei orau.

'Sgwn i faint o ddarlennwyr yr Eco sy'n troi tudalennau cylchgrawn go boblogaidd yn y sir. Mae'n siwr eich bod wedi sylwi ar y storm sy'n rhoi yng Nghaernarfon ynglŷn â hawliau pysgota o eiddo Cyngor Gwynedd. Mae rhai o'r dref yn mynnu na ddylai'r Gymdeithas gael eu prydlesu, am fod y pysgota – yn eu tyb nhw – i fod

yn rhad ac am ddim i bawb. Syniad gwyb os buasai hyn yn bosib. Yn y pen draw mae'n rhaid i rywun dalu ac, fel mae pethau ar hyn o bryd, mae'r clwb yn talu i'r cyngor am yr hawl i warchod y bysgotfa. Os yw pawb i gael 'sgota am ddim bydd yn rhaid i drethdalwyr Gwynedd felly dalu i weithwyr giperio a thorri'r glannau. Mae dywediad yndocs, 'Nid oes y fath beth â chinio am ddim', mae'n rhaid i rywun yn rhywle dalu. Dyna'r cwbwl ddywedaf ar hyn, mae wedi cymryd gormod o amser fel y mae.

Ond mae'n cdrych fel bod rhyw glwy ar dro tua'r dre 'na wyddoch. Yn ddiweddar mae safle Peblig wedi newid dwylo, dyma fan ble mae'r clwb yn prydlesu'r 'sgota, ar ochr y maes parcio, ers blynnyddoedd lawer, nid yw'r hawliau pysgota yma ynghlwm â'r tir. Beth mae'r perchenogion newydd yn geisio ci wneud, wrth gwrs – oes rhywun wedi dysalu? wel siwr iawn – mae nhw'n ceisio hel pawb oddi yno, gan ddweud 'Ni yw perchenogion popeth yma, ffwrdd a chwi'. Job bach arall bore Llun felly, mynd i lawr i weld y twrna hefo llond berfa o bapurau. Ar adegau fel hyn mae polisi y clwb yn cael ei gyfiawnhau, prynu popeth er mwyn ei gael mewn dwylo lleol. Docs dim dadlau wedyn.

Y rhai diwddarar i ddangos diddordeb yn cin cynllun magu torgoch yw Ysgol Gwyddorau Eigion Prifysgol Bangor. Mae'r arbrawf yn symud yn ei flaen yn arbennig o dda hyd yn hyn, Mae cyfle gwyb yma i sicrhau fod blas y torgoch lleol ar gael drwy rai o dai bwyta'r ardal. Ond mae un peth yn sicr, bydd yn rhaid dal ein gafael yn y cynllun, fel hyn bydd unrhyw elw yn aros yn lleol.

Mae'n anodd ceisio cael lle i ddweud sut mae'r dyfroedd yn 'sgota pan mae cymaint o bethau eraill yn mynd ymlaen, ond mae'n ddyletswydd arnom fel Cymdeithas i adael i'r fro wybod ychydig o'r politics sydd tu ôl i redeg Cymdeithas lwyddiannus.

Y mis yma rwy'n cynnwys un o'r lluniau diddorol sy'n cofnodi digwyddiadau dros y blynnyddoedd, Yr achlysur yw y diwedd Mr Islwyn Jones, Caernarfon yn cael ei gyflwyno gan y Gymdeithas am ennill y 'Brown Bowl', sef tlws sy'n cael ei rhoi'n flynyddol i'r pysgotwr sy'n cael yr helfa fwyaf yng nghystadleuaeth rhyngwladol y pedair gwlad Yn y rhcs ganol mae Mr Huw Delyn Williams o Fethel. Pwy all enwi'r gweddill, a dweud pa flwyddyn yw hi? Mae 'na wobwr – torgoch o'r ddeorfa, pan fyddant wedi tyfu digon with gwrs.

Huw Price Hughes



Y diwedd Mr Islwyn Jones, Caernarfon yn cael ei gyflwyno gan y Gymdeithas am ennill y 'Brown Bowl.'

Cyngor Cymuned Llanberis

Cyfarfu'r Cyngor ar nos Iau, 20 Mehefin yn 'Angorfa', gyda'r Cyngorydd Dei Tomos yn y Gadair.

Cytunwyd i ofyn am gael clirio Cae Chwarae Frondeg cyn gwyliau'r haf, yn enwedig gan fod tyfiant cryf o Gancwm Siapaniaidd ar ei gyrion. Gosodir ffens ar un rhan o'r terfyn yn ystod y mis nesaf.

Cytunwyd i ysgrifennu unwaith yn rhagor at Awdurdod Parc Cendlaethol Eryri ynglŷn â phroblem beicio ar lwybr yr Wyddfa. Tynnwyd sylw hefyd at y ffaith fod cyflwr y llwybr, ynghyd â llwybr Macsgwm, a ddefnyddir gan feicwyr, mewn cyflwr truenus.

Yn dilyn ymweliad safle, derbyniwyd a thrafodwyd adroddiad gan Gwmni Cynefin ar y posibilrwydd o greu llwybr troed/beicio yn Nantperis. Penderfynwyd cysylltu â'r awdurdodau perthnasol er mwyn ystyried y dull gorau o symud ymlaen â'r prosiect.

Penderfynwyd cyfrannu tuag at weithgor Rhwydwaith Beicio Peris, sy'n ymgychu i ymestyn y llwybrau beicio ar hyd llawr y dyffryn.

Cafwyd gwybodaeth y bydd y toiledau a fandaleiddwyd ger y lanfa wedi eu trwsio, ac ar agor eto yn fuan.

Yn dilyn pryderon ynglŷn â geifr gwyllt yn Nantperis a rhannau eraill o'r ardal, ac yn dilyn llythrau'r Cyngor i wahanol awdurdodau yn nodi'r pryderon, ni dderbyniwyd unrhyw ateb gan yr awdurdodau rheini i nodi fod y pryderon hyd yn oed yn cael eu cysidro.

Derbyniwyd sylwadau gan y Cyngorydd Fred Owen ar

gyfarfod ag aelod o'r Heddlu lleol, a derbyniwyd llythyr oddi wrth y Consortiwm Busnes lleol yn nodi pryderon ynglŷn â thorcyfraith. Bydd y Cyngor yn trefnu cyfarfod gyda chynrychiolwyr o'r Heddlu. Yn y cyfamser, gofynnir i drethdalwyr sydd ag unrhyw bryderon neu broblemau y gellir eu hystyried yn faterion i'w trafod gyda'r Heddlu, i gysylltu â'r Clerc neu unrhyw un o'r cynghorwyr lleol er mwyn eu cyflwyno i'r Heddlu i'w trafod.

Derbyniwyd dau gais cynllunio, ac nid oedd gwrthwynebiad i gais diwygiedig am estyniad yn 1 Bryn Teg, Llanberis nac i greu mynedfa yn 1 Pentre Castell, Llanberis. Penderfynwyd fod y Cyngor yn cytuno â gorchymyn gwarchod coed ffawydd a cheirios yng ngerddi Gwesty Padarn Lake, Llanberis.

Cafwyd trafodaeth drylwyr ar gyflwr y fynwent, a bydd y camau angenrheidiol yn cael eu cymryd i wella'r sefyllfa.

Tynnwyd sylw at gyflwr nifer o lwybrau gan y Cyngorydd Douglas Pritchard, a chytunwyd i gysylltu â'r awdurdodau perthnasol ynglŷn â Llwybr Tyddyn Charles/Pyllau Dŵr, Llwybr Cadair Ellyll/Coed Fictoria a Llwybr y Bont Fain/Castell Dolbadarn.

Derbyniwyd gwybodaeth gan Gyngor Gwynedd ynglŷn â sgipiau cymunedol. Byddant wedi eu lleoli yn Llanberis a Nantperis ar y 6ed o fis Awst. Bydd cyfarfod nesaf y Cyngor yn cael ei gynnal yn 'Angorfa' ar nos Iau, 18fed o fis Gorffennaf am 7.00 o'r gloch.

GWASANAETH ARGYFWNG PLYMIO
24 awr y dydd – 7 diwrnod yr wythnos

PLUM24CYM

Gwaith Plymio • Gosod Ceginau a Bathrws
Gwaith cynnal a chadw o bob math

Cysylltwch â DOUG JONES, BRON EIFION, WAUNFAWR
Ffôn: (01286) 650363 (0797) 0318996 (symudol)



CASTELL BOWNSIO
AR GYFER
POB ACHLYSUR

Down â fo atoch
a'i nôl wedyn

Ffôn: **871782**

O SIAMBAR SELWYN

Mae'n dymor gwyliau 'unwaith eto. Tydi'r misoedd yn gwibio fel rydan ni'n heneiddio. Fydda i ddim bellach, yn meddwl am fis Awst fel mis y gwyliau. Na - mis y Steddfod ydi mis Awst i mi. Mis cael dymuno 'Blwydd Newydd Dda' i hen ffrindiau ffyddlon na wela' i mohonyn nhw ond yn y Brifwyl yn flynyddol.

Ond, yn nyddiau glas fy mhleutyndod, pan oedd Rhyl yn baradwys pell - mis y gwyliau-pwced-a-rhaw oedd mis Awst. Cofio'r clocsiau o geir yn herio'i gilydd dan gawod o sgrechadau yn y marin-lêc. Trên - bach - tylwyth - teg yn tuchan wrth smocio'i ffordd o amgylch y llyn. Mae'n siwr gen i mai ar drip yr Ysgol Sul i Rhyl y profais i flas-india-roc y gusan gynta' yng ngwynfyd twnnel y cariadon, pan oeddau ni blant os diniwed yn brcuddwydio'n fctys ein byd, ac yn cuddio'n swildod tu ôl i gymylau pinc o gandi fflos.

* * *

Oedd, roedd Rhyl yn baradwys, ond fyddwn i ddim yn ystyried mynd i Rhyl am ddiwrnod bellach, heb sôn am dreulio wythnos o wyliau yno. Ydi, mac pethau wedi newid. A Rhyl hefyd.

* * *

Fe afaclodd y clwy crwydro a'r ysfa i weld y byd ynof fi yn gynnar iawn. Mynd hefo'r diweddar I. B. Griffith a chriw o ieuenctid y fro i wledydd Ewrop. Cofiaf yn dda mai un o'm ffrindiau ar y triapiau hynny oedd y diweddar Gwenlyn Parry.

O edrych yn ôl, dwi'n hynod falch i mi gael y cyfle i ymweld â rhai llefydd. Dwi'n credu y dylai pawb sy'n awyddus i grwydro'r byd wneud ymdrech i ymweld â Rhufain, Athen a Jeriwsalem. Diolchais sawl tro i mi fanteisio ar y cyfle i ymweld ag Israel, pan oedd hi'n ddiogel i wneud hynny.

Mi fuo 'na gyfnod pan yr oeddwn innau yn hel fy mhac a dilyn yr haul i'r gwledydd sy'n golchi eu traed ym Môr y Canoldir. Roedd hynny, ran amlaf, o reidrydd pan oedd

dyletswyddau ysgol yn garchar, ond roedd y gwres braidd yn llethol i mi yr adeg honno hyd yn oed. Na, fûm i rioed yn orhoff o dywydd anioddeffol o boeth.

Yr arferiad yr adeg honno oedd treulio'r wythnos gynta yn crwydro'r wlad, a'r ail wythnos ar lan y môr. Byddem yn ymweld â gwledydd fel Tunisia, Morroco, Twrci, Yr Eidal, Groeg a rhannau o Sbaen, fel Andalusia. Rhannau o America hefyd a mentro i weldydd fel Y Gambia ac, wrth gwrs, Ynysocdd y Caneris a'r Caribi.

Oedd, roedd 'na haul tanbaid yn y gwledydd hyn, a minnau yn swatio yn y cysgodion. Dysgu am y wlad yr wythnos gynta' a diogi yr ail wythnos. Dyna'r drefn.

Fedra i ddim deud i mi weld Awstralia y tro cynta i mi fod yno. Dim ond yn Meblourne a Sydney y bûm i, a wir bûm yn teimlo'n euog am y ffaith i mi fynd yr holl ffordd i ben draw'r byd a gweld cyn lleied. Mi welais i lawer iawn mwy o ryfeddodau Awstralia pan dreuliais i fis yno, ymhên blynyddoedd wedyn. Mae'r Ayre's Rock a'r Barrier Reef ar daith dridiau mewn trê'n o Adelaide i Perth, dros anialdir Nullarbor, yn fwy atgofus ddiddorol o lawer na strydoedd Sydney, y Tŷ Opera-plisgyn-wy a thraeth Bondai. Dwi'n cyfadde fod Sydney yn un o'm hoff ddinasoedd hefyd.

Wrth fynd yn hŷn, golygfeydd oedd yn denu. Taith ar draws Canada, pythefnos yng Ngwlad yr Iâ, mordeithiau i'r North Cape ac i Cape Horn. Mynd drwy'r Panama Canal. Rhaid i mi gyfadde 'mod i'n hoff o ymweld ag ynysoedd. Ynysoedd unig fel y Faeros, y

Shetlands a'r Orkneys, a gwledydd fel Greenland sy' hyd yn hyn heb gael ei difetha gan dwristiaeth. Siom i mi oedd methu cael glanio ar ynysoedd y Malvinas (oherwydd tywydd garw) y llynedd, ar y daith rownd Cape Horn ar y ffordd i'r Wladfa.

A rhaid i mi gyfadde mai ar long yr ydw i'n ymlacio fwy a dyddia hyn, er y bydda i yn ymweld â'r un llefydd yn aml.

Y ffefryn ydi i'r North Cape yn nhop Norwy a chael mwynhau golygfeydd y Fiords ar y ffordd yno. Eleni os byw ac iach dwi'n edrych ymlaen at gael mynd am y tro cynta yn fy mywyd i Ynys Sbitsbergen - y lle agosa y galla i fynd at Begwn y Gogledd.

Digon o waith y bydd 'na haul tanbaid i aflonyddu arna i yn y fan honno.

Dwi'n teimlo'n hapusach ar long nac mewn awyren, ac un o 'nghas betha i ydi tŷn-droi am oriau mewn maes-awyr.

Cwestiwn a ofynnir i mi yn aml ydi, P'run ydi'r wlad harddaf i mi ymweld â hi'. Wel, heb os, mac'r wob'r gynta yn mynd i Canada.

Efallai mai dyna pam y bydda i yn ymweld â Ucheldir yr Alban mor aml. Mae'r Alban fel mini-Canada i mi. Y wlad fwy diddorol i mi ymweld â hi yn sic'r ydi Gwlad yr Iâ.

Dinasoedd? O ran golygfa -

Rio de Janeiro, ond o ran rhyw awyrgylch arbennig sydd i'w deimlo yno - San Fransisco a New York, a phwy fedar anghofio Hong Kong?

Mi wnes i fwynhau fy hun yn Ushuaia hefyd. Ble yn y byd mawr ma' fan honno, meddech? Wel, ym Mhatagonia - y dre/ddinas mwya deheuol yn Ne America, o ble mae'r llongau yn paratoi i fynd tua Pegwn y De. Fe gewch fynd ar drên bach yno ar daith a ddisgrifir fel 'A Journey to the end of the world'. Lle hynod o ddiddorol.

* * *

Wel, ble bynnag yr ewch chi ar eich gwyliau yn ystod yr haf 'ma, tros dir neu fôr, neu yn yr awyr - i'r haul neu i'r cira, i ynys unig neu i ddinos boblog, boed i chi gael gwyliau hapus a thaith ddiogel, a boed i'r atgofion aros yn felys ar eich cof.

Cofiwch yr hen ddihareb Sicincaidd: 'Mac y sawl sy' wedi teithio mil o filltiroedd yn ddoethach na'r sawl sy' wedi darllen mil o lyfrau'.

Fy hoff daith i? Yn ôl i Landdeiniolen. Na, fyddwn i ddim yn dewis byw yn unman ymhell o olwg yr Wyddfa.

**Cefnogwch
ein
Hysbysebwy'r**



GWYLIAU SEREN ARIAN

- PECYNNAU GWYLIAU YM MHRYDAIN, EWROP AC YMHELLACH.
- TEITHIAU I GYNGHERDDAU A THEATRAU.
- TREFNU PECYNNAU GWYLIAU I GRWPIAU A MUDIADAU AM BRISIAU RHESYMBOL.
- BWSIAU MODERN A MOETHUS
- GWESTAI O SAFON
- CWMNI TEULUOL
- MANNAU CODI YN CYNNWYS: LLANBERIS, CWM Y GLO A LLANRUG.

**Am fwy o fanyllion am ein teithiau, ffoniwch
ein swyddfa ar y Maes yn Nghaernarfon ar 01286 672333**

CAB GWYNEDD & DE YNYS MÔN

Bangor • Caernarfon • Dolgellau • Pwllheli

Rydym angen

GWIRFODDOLWYR

Ydych chi'n ddibynadwy ac yn gallu rhoi chwe awr o'ch amser bob wythnos? Nid oes angen profiad na sgiliau arbennig, cewch hyfforddiant llawn.

Am fwy o wybodaeth, ffoniwch:

01286 677013



GARETH GRIFFITH A'I GWMNI

Cyfreithwyr

6 Pepper Lane, Caernarfon, LL55 1RG

Tel: 67 68 69 Ffacs: 67 77 05

E-bost: ggriffith.ggo@virgin.net

- Prynu a Gwerthu Tŷ • Ewyllysiau a Phroffiant
- Hawliadau Damweiniau • Prydles ac Eiddo
- Cyfreithiad Troseddol a Sifil • Deddf Drwyddedu
- Ysgariad a Gwarchodaeth Plentyn
- Perchennog a Thenant
- Pob Gwaith Cyfreithiol Cyffredinol

Un funud fach

Fuoch chi yn yr Oriel yn Llanberis yn ddiweddar? Wedi bod yno'n gweld 'Cychod Llyn Peris' rhaid canmol y gwaith a wnaed i adfer y cychod a threfnu'r arddangosfa hynod hon. Mae'r cyfan yn ardderchog. Mae'n rhaid dotio at ddawn y rhai a fu ynglŷn â'r fenter. Mae'n rhaid hefyd ganmol y ffordd yr aed ati i osod y cychod yn eu cyd-destun hanesyddol. Mae'r siartiau a'r lluniau a'r llinell amser yn dangos beth oedd yn digwydd yn yr ardal ac yng Nghymru a thu hwnt yn y cyfnodau yr oedd y cychod hyn yn cael eu defnyddio.

Mae'n rhyfedd meddwl y gallasai Llywelyn fod wedi defnyddio un o'r cychod hyn a godwyd o ddyfnder llyn Peris. Dod â hanes yn fyw ydy peth fel hyn, a bydd pawb fydd yn ymweld â'r arddangosfa hon yn siwr o ddysgu llawer.

Nid amgueddfa mo'n heglwys, ond mae'r rhain hefyd yn ein cysylltu â'n gorffennol. Ond nid creiriau nac adeiladau hynafol sy'n ein cydio wrth y gorffennol hwnnw ond addoliad byw yr eglwys. Ac mae'r addoliad hwnnw yn ein cydio nid yn unig wrth Gymru'r ganrif ddiwethaf, ond wrth Gymru'r canrifoedd, ac wrth bobl o bob rhan o'r byd ers canrifoedd maith.

Mae'r Eglwys heddiw yn dangos i ni gymaint am yr hyn a gredodd pobl ers ugain canrif. Mae'n dangos beth fu pobl yn ei gredu, a sut bu pobl yn byw ac yn addoli yma yng Nghymru ac mewn gwledydd eraill ers canrifoedd. Ond yn ogystal â'n cydio wrth ein gorffennol mae'n ein cydio wrth ein dyfodol hefyd. Bydd pobl yn credu'r pethau hyn, ac yn addoli Iesu Grist tra bydd yna bobl ar y ddaear yma. Bydd yna rai pethau'n wahanol. Bydd angen adeiladau newydd. Bydd gennym ganeuon newydd. Bydd gennym batrymau addoli newydd. Ond bydd yr Efengyl yn aros yr un; a'r un peth fydd ffydd a gobaith y Cristion, a'r un fydd yr egwyddorion a'r safonau'r a arddelir ganddo ym mhob oes.

Mae'r cychod a godwyd o wely'r llyn yn drysorau i ryfeddu atynt. Ond rhyfeddod mwy o lawer yw'r eglwys Cristnogol sy'n ein cydio, nid yn unig wrth ein gorffennol cyfoethog, ond wrth ein dyfodol bendigedig yn y byd yma ac yn byd a ddaw.

JOHN PRITCHARD

Cefnogwch
ein
Hysbysebwy

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

TRIP YR HENOED. Fe fwyhaodd pawb eu hunain ar y trip ardderchog o amgylch Llyn ddydd Sadwrn, 15 Mehefin. Cafwyd te blasus yng Nghaffi'r Cwrt yng Nghricieth ac yna ymlaen am adref drwy Foddgelert a thros Fwlch Llanberis. Diolchir i bawb a drefnodd ac a gyfrannodd tuag at Gronfa'r Pensynwyr gan sicrhau trip gwerth chweil.

EILLIO PEN - NODDEDIG. Dymuna Jean Jones ddiolch i bawb am ei noddi i eillio ei phen yng Ngwesty Dolbadarn, nos Sadwrn, 8 Mehefin. Casglodd y swm sylweddol o £670 i Gronfa Rhys Parry, Deiniolen. Trefnwyd y noson gan Ken a Jan sy'n cynnal y dosbarth Dawnsio Llinell yn Neuadd yr Eglwys bob nos Fercher. Roedd cyfanswm yr holl weithgareddau ar y noson yn Nollbadarn oddeutu £1,300. Diolchir i bawb am eu haelioni a'u cefnogaeth.

UN AR HUGAIN OED.

Pen-blwydd Hapus i Siân Lewis. Penpwlloch a ddathlodd ei phen-blwydd yn 21 yn ddiweddar. Pob bendith i'r dyfodol. Siân.

GOLLI ANWYLIAD. Anfonir ein cydymdeimlad llwyr i Mrs Megan Roberts, Eirian, Siôn, Carwyn a'r teulu oll yn eu colled sydyn ym marwolaeth mam Megan o Fethel.

Ein cydymdeimlad dwysaf hefyd â Mrs Dilys Jones a'r teulu. Weirglodd Goch ar eu profedigaeth o golli tad a thaid annwyl.

Ar 15 Mehefin, yn dawel yn Ysbyty Gwynedd bu farw Mr Ken Mowll, 19 Bryntirion. Cydymdeimlir yn ddwys â Mrs Blodwen Mowll, Gwyn, Carys, Glyn ac Alun a'u teuluoedd o golli gŵr, tad a thaid gofalus.

DIOLCH. Dymuna Ken Williams, Trem Cynfi, Waen ddiolch i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, galwadau ffôn a'r ymweliadau a gafodd yn dilyn ei driniaeth fawr yn Ysbyty Gwynedd. Diolch o galon.

DYMUNA Megan, Erian, Siôn a Carwyn ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad tuag atynt ac am y

rhoddion at Gronfa Marie Curie.

GWELLHAD. Anfonir y cofion anwylaf at bawb ohonoch sy'n sâl yn y pentref. Buasai ychydig o heulwen yn codi rhywfaint ar galonnau - efallai y daw yng Ngoffennaf! Brysiwch wella i gyd. PWYLLGOR NEUADD.

Tynnwyd Clwb Cant Mehefin a'r enillwyr oedd Carol Jones, Yr Ysgol Gymuned; Mathew Philips, 7 Tai Arthur; Margaret Williams, Garrog.

Trefnir Taith Gerdded yng ngofal Leslie Larsen ar nos lau, 18 Gorffennaf. Pawb i ymgynnull wrth yr Ysgol Gymuned am 6.30.

Pwysleisir fod yn rhaid i bob plentyn fod yng ngofal oedolyn.

Bwriedir cychwyn y daith mewn ceir a pharcio yn y Lagwn wrth Llyn Padarn. Yna cerdded o Lanberis i Ben Llyn ac yn ôl. Os bydd yr haul yn tywynnu bydd yn daith hynod o ddifur a diogel. Felly dowch i ymuno yn y daith anturiaethol hon. Y gweithgaredd nesaf fydd Noson Calangaeaf ar nos lau, 31 Hydref. YSGOL SUL, BOSRA. Cynhelir Gymanfa'r Methodistiaid yng Nghapel Hiraol, Bangor bawn Sul, 30 Mehefin am 2.00 o'r gloch. Fe drefnir bws.

Gyda nos, 20 Mehefin, bydd y plant yn cymryd rhan yng Ngwasanaeth Cymdeithas y Beiblau yng Nghapel Cefnywaun, Deiniolen am 6.00. Fe drefnir bws i gychwyn o Ddinorwig am 5.30. Fe fuasai athrawon yr Ysgol Sul yn hynod falch o gymorth y rheini ar y bws, yn dilyn Rheolau Diogelwch Gofal Plant. Gwneir casgliad yn y gwasanaeth tuag at Gymdeithas y Beiblau.

TRIP YR YSGOLION SUL.

Sadwrn 13 Gorffennaf. Mae'r bws wedi llenwi ar gyfer y trip i'r 'Blue Planet', Siopau Cheshire Oaks a'r Ffair yn Rhyl. Bydd y bws yn cychwyn o groesffordd King am 8.30 y bore. Pris £8 i oedolion a £4 i blant nad ydynt yn aelodau o'r Ysgol Sul. Cysyllter â Mrs Elizabeth Jones (872421) neu Mrs Ann Paterson (872405).

SBRI'R YSGOL SUL. I gloi gweithgareddau'r Ysgol Sul bydd

Sbri'r Ysgol Sul yn cael ei gynnal yn Ysgol Brynrefail bawn Sul, 14 Gorffennaf dan ofal Henaduriaeth Arfon. Byddwn yn cychwyn o giât yr Ysgol Gymuned am 1.15 i fod yno erbyn 1.30. Gofynnir yn garedig am gymorth rhieni i gludo'r plant yno er diogelwch, a'u nôl o gwmpas 3.30 - 3.45. Diolch.

ARHOLIADAU. Y maent wedi gorffen i rai, eraill ohonoch yn eu canol ond, serch hynny, bydd yr holl waith o fudd mawr i chwi yn y pen draw. Mwynhewch eich gwylliau a phob dymuniad da. LLONGYFARCHIADAU i ti, Ynyr, ar ennill Gradd BA 2.1 o Brifysgol Halam, Sheffield. Pob dymuniad da i'r dyfodol.

GENEDIGAETH. Llongyfarchion i Anna Marie a Tudur ar enedigaeth eu mab bychan, Moi Tudur, brawd bach i Magi.

PEN-BLWYDD ARBENNIG.

Dymuniadau gorau i Mrs Mathews, Fresh Winds ar ddathlu pen-blwydd arbennig iawn yn ddiweddar.

LLONGYFARCHIADAU hefyd i Glenys, Trem Cynfi ar ddathlu pen-blwydd arbennig. Cariad mawr oddi wrth Ken, Gwynfryn, Carys, Barri, Dylan a Carwyn.

YMCHWIL Y GALON. Casglwyd y swm anrhydeddus o £83.07 tuag at Ymchwil y Galon. Diolchir i Elizabeth Jones ac Ann Paterson am gefnogi'r ymgyrch drwy gasglu o drws i ddrws.

EGLWYS SANTES HELEN. Dydd Sul, 14 Gorffennaf am 10.30 gweinyddir y Cymun Bendigaid ac am 4.30 bydd Gosber a Phregeth gan y Parch Ann Smitham, Y Felinheli.

WYTHNOS Y CARNIFAL

Awst 12 - 18.

Cynhelir y gweithgareddau o Awst 12 i 18 fel a ganlyn:

Llun: Bingo yn Neuadd yr Eglwys am 7.30. Galwr: Helen Owen;

Maw: Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys am 7.30. M.C.: Mr Selwyn Griffith;

Mer: Mabolgampau ar gaeau'r Ysgol Gymuned am 6.00 yng ngofal Wendy a David Philips.

8.00 Dawnsio Llinell yn Neuadd yr Eglwys.

lau: Gŵyl Flodau yn yr Eglwys o 10 y bore gyda Chymun Bendigaid hyd at 7.00 yr hwyr.

Bydd hyn bob dydd - yng ngofal Mr a Mrs Clifford Williams, Mrs Margaret Christian a Mrs Janet Ash.

7.00: Twmpath Dawns neu Disgo yn Neuadd yr Elgwys.

Gwe: Helfa Drysor i gychwyn o Neuadd yr Eglwys am 7.00 yng ngofal y Parch Tegid Roberts a'r teulu.

Sad: Y Carnifal am 2.00 ar gaeau'r ysgol.

Sul: Cymanfa Ganu am 7.00 yn yr Eglwys.

SEFYDLIAD PRYDEINIG Y GALON. Fel canlyniad i'r casgliad o dŷ i dŷ yn ddiweddar, casglwyd y swm o £83.07 ym Mhenisarwaun gan Elisabeth Jones ac Ann Patterson. Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i bawb am bob cefnogaeth.

LLONGYFARCHIADAU i Roberta Ingman Griffith ar ei llwyddiant ar ennill gradd BSc (Agored) mewn pynciau Gwyddoniaeth Sosialaeg, hefyd enillwyd Diploma Dynoliaeth Ewropeaidd gyda'r Brif Ysgol Agored. Cafodd ei gwobrwyo yn Neuadd Bridgewater Manceinion yn ddiweddar.

Fframia Gwasanaeth Fframio Lluniau

Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth • Dewis eang yn cynnwys:

IVOR STUBLEY • KEITH ANDREW
KEITH BOWEN • ROB PIERCY

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)

(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

antur WAUNFAWR

Cynllun Dodrefn

Mae'r Cynllun yn brin o gyfraniadau nwyddau trydanol, yn arbennig poptai, oergelloedd, peiriannau golchi a rhewgelloedd fyddai'n addas i'w cleientau ar incwm isel

Gwasanaeth casglu rhad ac am ddim

01286 674 155
www.anturwaunfawr.org

ANTUR
WAUNFAWR

SWEDD
GŴYLLGOR NEUADD
CYRILLUN
NATIONAL LOTTERY
CHARITIES BOARD

CHWILOTA

Gwerthu Eiddo'r Eglwys



Tua pedwar ugain o flynyddoedd yn ôl roedd yr Eglwys yng Nghymru yn gwerthu niferoedd o'i heiddo, yn enwedig mân dyddynnod a thai unigol. Ym mhlwyf Llanrug cynigiwyd tua pymtheg o wahanol ddaliadau ar werth yn 1920. Mae'r Catalog Arwerthiant ar gael, yn rhestru'r eiddo, y tenantiaid, cyflwr y tai a'r tir, y rhent blyneddol, gwerth y degwm, a gwybodaeth am unrhyw hawliau tramwy ar draws tiroedd.

Roedd nifer o'r daliadau hyn ar ochr y briffordd yn Llanrug; ardal a fu ar un cyfnod, wrth gwrs, yn rhan o gomin eang y Rhos Rug. Mae'n ddiddorol nodi mai'r Lot cyntaf yn yr arwerthiant oedd 'Half Way House'; y tŷ sy'n parhau i gael ei alw felly ar lafar o hyd, ond ei fod bellach wedi ei ail-enwi'n 'Ogwen'. Fe'i adeiladwyd tua 1830, yn y cyfnod pan gafodd y ffordd fawr o Gaernarfon i Lanberis ei llunio, gan osgoi'r dringo serth dros y Clegir, a dilyn y tir isel drwy Gwm y Glo a glannau Llyn Padarn. Yn yr un cyfnod, diwygiwyd yn hclacth rai o'r deddfau yn ymwneud â gwerthiant alcohol, ac agorwyd dwsinau o fân dafarnau a thai gwerthu cwrw. Roedd tafarn yr 'Halfway' yn un ohonynt: tafarn a oedd yn honedig union hanner y ffordd rhwng Caernarfon a Lanberis ar y ffordd newydd.

Erbyn cyfnod yr Arwerthiant, roedd wedi peidio â bod yn dafarn, ond yn parhau'n siop. Roedd pum acer o dir gyda'r tŷ a'r siop, ar rent blyneddol o £15. Nodwyd yn y catalog fod gan bersonau hawl croesi dau o gaeau'r tyddyn i gyrchu dŵr o ffynnon.

Roedd tyddyn arall, Bryn Coch, yn cael ei gynnig ar werth hefyd. Er fod mwy o dir gyda hwn (naw acer), dim ond £11 oedd y rhent blyneddol, a hynny, mac'n dchyg oherwydd cyflwr y ty. Mae'n cael ei ddisgrifio fel tŷ yn cynnwys cegin a siambar yn unig, ond

fod un ystafell arall yn sownd i'r tŷ, gyda mynediad iddi o'r buarth. Unwaith eto, mae'n cael ei werthu gyda hawl tramwy ar draws y tir i berchennog Cae Rhos.

Roedd pedwar bwthyn Bryn Coch yn cael eu cynnig gyda'i gilydd fel un Lot, ond gellid eu gwerthu ar wahân os nad oedd unrhyw un yn fodlon prynu'r pedwar! Cegin, cegin gefn a dwy lofft yn unig oedd iddynt, a'r rhent yn £4-16-0 y flwyddyn.

Cynigiwyd dau fwthyn Afonwen ar werth. Mae'r rhain bellach wedi eu dymchwel, ond arferent sefyll yn iard storio ceir Garej Hafod. £2 yn unig oedd y rhent blyneddol. Mae'n ddiddorol nodi fod dwy siop ynghlwm wrth y ddau fwthyn. Ceir brawddeg yn y catalog yn nodi nad oedd yr un o'r ddwy siop yn cael eu cynnwys yn yr arwerthiant: siop cigydd a siop crydd.

Ar safle Garej Hafod roedd tyddyn Hafod Garregog - chwe acer o dir a rhent o £11. Parlwr, cegin, llaethdy a dwy lofft oedd i'r bwthyn.

Yn ardal Pontrug cynigiwyd bwthyn bychan Sarn (wrth ymyl y bont) ar werth. Er mai bychan oedd y tŷ (cegin a dwy siambar) a dim ond tair acer o dir oedd iddo, roedd y rhent yn £12 y flwyddyn. Roedd hynny oherwydd fod cyflwr y tir yn 'ardderchog', a gardd 'dda iawn' gan y tenant, Hugh Jones.

Yr eiddo mwyaf o ddigon i gael ei gynnig ar werth oedd fferm Glan-yr-afon. Y tenant

oedd Thomas Roberts, a thalai rent blyneddol o £57, a degwm o £4-17-6. Roedd bron i 75 acer o dir ynghlwm â'r tŷ. Disgrifir ef fel un sylweddol yn cynnwys parlwr, cegin, cegin gefn, llaethdy, ystafell storio a thair llofft. Roedd nifer dda o adciladau allanol hefyd, yn cynnwys beudy, dwy shed lloi, shed storio, shed troliau, a stablau. Ceir brawddeg hefyd yn nodi fod 'disputed right of way to adjoining farm Glan Seiont'.

Gwybodaeth mewn Catalog Arwerthiant yn unig sydd ar gael: does wybod a werthwyd y cyfan o'r eiddo ar y pryd, nac i bwy; ond mae hyd yn oed yr ychydig fanylion a geir mewn catalogau o'r fath yn rhoi golwg arall ar gyflwr tai a chyflwr byw trigolion yr ardal yn y cyfnod hwnnw.

Cofio Cyngerdd yr Urdd

Mae Mrs Mair Parry, Llanllyfni (Crawia, Llanrug, gynt) yn un o selogion y golofn, a'r mis hwn anfonodd atgofion am un o gyngherddau cyntaf (os nad y cyntaf) Urdd Gobaith Cymru. Yn ddiweddar ar y teledu ail-ddarlledwyd cyngerdd dathlu tri chwarter canrif sefydlu Eisteddfod yr Urdd, a hynny a ysgogodd Mrs Parry i sgwennu'r atgofion sy'n dilyn.

'Cefais fod yn aelod o Urdd Gobaith Cymru Fach am y tro cyntaf yn nechrau'r daudddegau. Cadw ceiniogau nes cael swllt i dalu aelodaeth, a chael bathodyn gan un o'm cyfoedion, Gwladys Medwen Jones, Tyddyn Rhuddallt, a oedd yn Uwch Gaptan Adran Llanrug. Dan arweiniad di-flino Mrs Owen, Isallt, ynghyd â rhieni eraill, roedd yr Adran yn ffynnu.

Cyn bod Eisteddfod yr Urdd, cynhaliwyd cyngerdd yng Nghaergybi, yn cynnwys nifer o eitemau gan wahanol adrannau o Wynedd a Môn. Parti canu oedd cyfraniad Llanrug, a threuliwyd oriau'n dysgu canu 'Cloch yr Ysgol' ar gyfer y cyngerdd.

Daeth y dydd i deithio ar y trên o Orsaf Pontrhythallt; pawb a'i becyn bwyd. Injan stem yn tynnu dau gerbyd hir yn cynnwys rhyw ddeg o adrannau. Dyna daith

fythgofiadwy! I'r rhai ohonom na fu mewn trên o'r blaen roedd yn brofiad digon brawychus - yn enwedig mynd drwy dwel Bangor a Phont y Tiwb. Cawsai fy ffrind, Ceinwen, het newydd sbon ar gyfer y dydd mawr - un wen a smotiau bach gwyrdd arni. Rhag ei baeddu cyn cyrraedd Caergybi, rhoddwyd yr het i eistedd ar y 'rack' uwchben y seti. Pawb yn rhythu drwy'r ffenestri wedi ein swyno gan yr olygfa ar draws Môn. Roedd y ffenestri fesul un yn cael eu hagog, a'r canlyniad oedd i'r het gael ei chwythu allan, a ninnau'n ei gwyllo'n dawnsio mynd ar draws y corsydd wrth ochr y lein nes diflannu'n llwyr! Am ennyd roedd tawelwch, ond roedd Caergybi'n nesau, a buan yr anghofwyd am yr het.

Cynhaliwyd y cyngerdd yn un o gapeli Caergybi, a chawsom gyfarfod ag ugeiniau o blant o wahanol adrannau eraill. Pan ddaeth eisteddfod yn ddiweddarach, ail-gynheuwyd y cyfeillgarwch a ddechreuodd yng nghyngerdd Caergybi, ac a barhaodd am flynyddoedd wedyn."

Oes mwy o ddarlennwyr yr 'Eco' yn cofio'r cyngerdd hwn? Beth am atgofion aelodau o ganghennau eraill o'r Urdd?

Nid Wesla o Fethel.

Yn dilyn y cais y mis diwethaf am wybodaeth ynglŷn â William Ellis Jones, Saron, Bethel, cefais ymateb sydyn a chynhwysfawr gan Mr Cledwyn Williams, Tŷ'r Ysgol, Llanrug, yn nodi mai Eglwyswr ac nid Wesla oedd ap Elis.

Roedd William Ellis Jones yn enedigol o Gaernarfon, yn saer coed wrth ei alwedigaeth, ac yn gweithio i Gwmni'r Rheilffordd. Roedd ganddo dri o blant o'i briodas gyntaf. Priododd merch iddo â Sais o'r enw Jack West a ddaeth i'r dre i ddilyn ei alwedigaeth fel clocsiwr. Arferai hefyd gadw stondin yn y farchnad yn gwerthu llestri. Roedd tri o blant gan Jack West a'i wraig, ac arferent ddod i Dan y Buarth, Bethel am wyliau haf. Byddai aelod arall o'r teulu, May Goodwin, yn ymwelydd hefyd.

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR

Ffôn/Ffacs: (01286) 650291



Dewis eang
o Welyau a 3P/Suites.
Llenni Venetian a Llenni Roler.
5,000 llathen sgwâr o garpedi
mewn stoc - allwch chi
fforddio prynu o batrymau?

GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

Ar Agor

9-7 pm

9-5 pm Sadwrn

Ar Gau

Sul a Mercher

Royal Victoria Hotel

LLANBERIS

Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer

PRIODASAU • PARTÏON • DATHLIADAU ac
ACHLYSURON ARBENNIG

CYFLEUSTERAU CYNHADLEDDAU a
PHWYLLGORAU

BWYDLEN BAR a CHINIO DYDD SUL

Ffôn: (01286) 870253

Nid yw Mr Williams yn sier iawn beth oedd cysylltiad y wraig hon â'r teulu. Roedd merch arall i William Ellis yn byw yn y Borth, Aberystwyth. Collodd fab yn y Rhyfel Mawr.

Rhoes William Ellis ei fryd ar ddod yn offeiriad, a chafodd swydd darllenydd llecyg amser llawn yn Eglwys Saron. Ailbriododd â Martha, merch Salmon Jones, Tan y Buarth. Roedd Eglwys Saron ar y pryd yn dod o dan ofal Eglwys Llanfairisgaer yn hytrach na Llanddeiniolen. Roedd disgleirdeb arbennig ar Tan y Buarth. Mae Mr Williams yn cofio eu bod yn 'cadw dwy fuwch borthiannus; tās wair o safon; corddi a gwerthu menyf, a gwerthu llefrith yn lleol'.

Pan ddaeth gweinyddiaeth eglwysig rhan isaf y plwy yn ôl dan ofal eglwys Llanddeiniolen, penderfynwyd penodi ciwrad llawn amser i fod mewn gofal o Eglwys Saron; ond apeliodd Ficer Llanfairisgaer ar i William Ellis gael cadw ei swydd gan iddo roi gwasanaeth clodwiw i'r pentref. Felly y bu, a pharhaodd William Ellis Jones i ofalu am Eglwys Saron, gydag Ysgol Sul lewyrchus a niferus.

Un o dculu Salmon Jones, tad Martha, oedd perchennog Tan y Buarth. Roedd yn byw yn Y Felinheli. Pan fu farw Martha, gwerthwyd y tyddyn, a symudodd William Ellis Jones o'r ardal.

Galwai ei hun yn Ap Ellis, ac yn ôl Mr Williams, roedd yn fardd pur dda. Mae pennill o'i eiddo ar fedd William Williams, Bron Meillion, Bethel, ym mynwent Llanfairisgaer.

Llawer o ddiolch i Mr Williams am y wybodaeth.

Teulu Hume, Llanberis.

Daeth galwadau lu yn dilyn yr erthygl am y cysylltiad honedig â Hollywood. Diolch i bawb a fu mewn cysylltiad, ac am y wybodaeth. Ni fu'n bosib eu crynhoi i gyd at ei gilydd mewn pryd i'r rhifyn hwn, ac y mae ambell sgwarnog yn parhau angen ei dilyn! Gobeithio y gallaf gau pen y mwdwl ar yr hanes hwn yn rhifyn nesa'r 'Eco'.

Mae mis o wyliau i ddod: digon o amser i chwila am fwy o hynodion hanes cin bro. Anfonwch unrhyw gais i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y nant, Llanrug, Caernarfon. (Ffôn: 01286 673515).

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

SEFYDLIAD Y MERCHED

Cynhaliwyd cyfarfod mis Mai o'r gangen leol nos Lun yr 20fed. Roedd y cyfarfod dan ofal y llywydd Mrs Pat Jones pryd y trafodwyd yr Argymhellion ar gyfer y cyfarfod blynyddol a gynhelir yn Brighton. Cafwyd adroddiad hefyd o Gyngor y Gwanwyn gan y llywydd a Mrs Verna Jones. Mrs Gwenda Roberts a Mrs Valmai Owen baratodd y baned ac enillwyd y raffl, rhoddedig gan Miss Alice Williams, gan Mrs Ifanwy Jones.

Noson yng nghwmni Dr Berwyn Owen, Llanrug gafwyd nos Lun Mehefin 17eg. Fel un sy'n dilyn galwedigaeth fel pennaeth fferylliaeth yn Ysbyty Glan Clwyd, cafwyd noson addysgiadol a diddorol iawn yn ei gwmni yn trafod meddyginiaethau naturiol ynghyd â llawer o sylwadau buddiol ar eu hadweithiau i wahanol gyffuriau. Mrs Carol Houston oedd y llywydd a hi a dalodd y diolch i'r siaradwr gwadd. Rhoddwyd y lluniaeth gan Mrs Lowri Roberts Williams a Mrs Ifanwy Jones. Enillwyd gwobr y mis, rhoddedig gan Mrs Ifanwy Jones gan Mrs Valmai Owen.

DATHLU YMDDEOLIAD Nos Wener, 24 Mai, fe gafwyd cinio arbennig yn y Bedol, Bethel i ddathlu ymddeoliad Islwyn Williams, Dinorwig House. Trefnwyd y noson gan ffrindiau a chydweithwyr o Ysbyty Gwynedd lle bu yn gweithio fel technegydd theatr am bron i 30 o flynyddoedd. Cyflwynwyd nifer o anrhegion fel arwydd o werthfawrogiad o'i wasanaeth. Hefyd derbyniodd Mrs Malan Williams dusw o flodau hardd. Dymuna'r ddau ddiolch yn fawr iawn i bawb.

CANOLFAN GYMUNEDOL Nos Fawrth, Mehefin 18fed cynhaliwyd Cyfarfod Cyhoeddus yn y Festri. Prif bwmpas y cyfarfod oedd adrodd i'r gymuned ganlyniad yr Holiadur a ddosbarthwyd yn y pentref y ystod mis Mai. Cyflwynodd y Cyngorydd Keith Brymer Jones gadeirydd y noson sef y Cyngorydd Pat Larsen. Gwahoddwyd Mr Gwyn Hefin Jones i amlinellu'r cefndir o safbwynt adeiladau a safle'r Eglwys Bresbyteraidd. Yna cyflwynodd Mr Geraint George yr ymatebion a gafwyd yn yr Holiaduron. Dychwelwyd canran uchel iawn o'r holiaduron gyda 99% o blaid sefydlu canolfan amlbwrpas yn y pentref. Roedd ymateb o du plant a rhieni yn rhagorol a 30% yn barod i roi cymorth gwirfoddol, a hynny mewn ystod eang o feysydd. Mae copi o'r canlyniadau ar gael gan Mr Geraint George.

Yn bresennol yn y cyfarfod yr oedd Sioned Williams o Adran Cynllunio Cyngor Gwynedd. Estynnodd longyfarchiadau i'r pwyllgor llywio am y gwaith arloesol a wnaed hyd yma - gwaith i adeiladu arno i symud y cynllun yn ei flaen a oedd i'w groesawu yn fawr. O hyn ymlaen bydd rhaid trafod opsiynau ymarferol ar sail atebion i'r Holiadur. Diolchwyd i Mr Geraint George am ei waith ynghyd â Mrs Carol Houston am ei rhan yn y cyflwyniad cyfrifiadurol o'r canlyniadau. Yn dilyn ffurfiwyd pwyllgor newydd i ymgymryd â'r gwaith. O'r rhai oedd yn bresennol o'r gweithgor blaenorol cytunodd y canlynol i barhau: Cyngorydd Pat Larsen, Cyngorydd Keith Brymer Jones, Mri Gwyn Hefin Jones, David G. Ellis, Geraint George, Mrs Ruth Dafydd, Lowri Roberts Williams a Carol Houston. Yn ychwanegol, etholwyd Mrs Joanne Jones a Mrs Delyth Jones. Cysylltir a gweddill y gwaithgor blaenorol a rhai a wirfoddolodd i gynorthwyo ynghyd â ieuencid yn eu tro i'w gwahodd i ymuno â'r gweithgor newydd. Yn bresennol hefyd yn y pwyllgor yr oedd Mr Eirwyn Griffith, Swyddog Bro Dyffryn Peris a fydd yn ymuno â'r gweithgor fel sylwebydd. Cynhelir y cyfarfod nesaf yn y Festri nos Fawrth, Gorffennaf 16eg am 7 o'r gloch.

PROFEDIGAETH Cydymdeimlwn yn ddwys a Mr Norman Williams, Godre'r Coed yn ei brofedigaeth o golli ei chwaer, y ddiweddar Mrs Olwen Thomas, gynt o Abergwyngregyn, ar Fehefin 5ed. Bu'r angladd cyhoeddus yng nghapel Aber ar Fehefin 11eg gyda'r Parchn. Eifion W. Williams, Llanfairfechan, Meirion Lloyd Davies, Pwllheli a Gwenda Richards yn gwasanaethu. O'R YSBYTY Nid yw Mrs Gwyneth Evans Ty'n Buarth wedi bod yn dda ei hiechyd yn ystod y misoedd diwethaf ac mae wedi treulio cyfnod unwaith eto yn Ysbyty Gwynedd. Gobeithio y byddwch yn teimlo yn llawer gwell wedi dod gartref.

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD Y GYMDEITHAS. Cyfarfu Cymdeithas y Capel nos lau, Mehefin 13eg dan lywyddiaeth Mr

David G. Ellis, Gweledfa. Roedd y myfyrdod dan ofal Mr Norman Williams, Godre'r Coed. Croesawodd y llywydd y gŵr gwadd sef Mr R. Gwynn Davies, Waunfawr. Cafwyd noson arbennig yn ei gwmni. Testun ei sgwrs oedd 'Newid Gwaith' ac mewn dull celfydd o gyfuno'r digrif a'r difrif tywysodd yr aelodau o'r naill garreg filltir i'r llall yn ei yrfa gyffrous. Diolchwyd iddo am sgwrs gofiadwy gan Mrs Lowri Roberts Williams a'i longyfarch am yr anrhydedd haeddiannol iawn a derbyniodd yn ddiweddar sef Medal Goffa Syr T. H. Parry Williams a gyflwynir iddo yn Eisteddfod Genedlaethol Tyddewi fis Awst. Hi hefyd ynghyd â Mrs Joan Williams baratodd y lluniaeth. Bydd y cyfarfod nesaf nos lau, Gorffennaf 11eg yng nghwmni Miss Alice Williams, Caernarfon yn sôn am ei thaith i Batagonia.

CYMDEITHAS Y BEIBLAU Mae plant yr Ysgol Sul yn ystod y mis wedi bod yn paratoi ar gyfer Sul Cymdeithas y Beibla a gynhelir yng Nghapel Cefnywaun nos Sul Mehefin 30ain am 6 o'r gloch.

SBRI YR YSGOL SUL. I gloi blwyddyn yr Ysgol Sul, cynhelir y Sbri flynyddol dan nawdd Pwyllgor Ieuencid Henaduriaeth Arfon yn ysgol Brynrefail ddydd Sul, Gorffennaf 14eg rhwng 1.30 a 4.30. Paratowyd rhaglen iawn o weithgareddau diddorol eto eleni yn cynnwys gwaith llaw, cerddoriaeth, cwis, stori, actio, dawnsio llinell a helfa drysor.

TREFN OEDFAO GORFFENNAF 7 Cymanfa Henaduriaeth Arfon yng Nghapel Jerusalem Bethesda am 6.00; 14 Mr Norman Closs Parry, Treffynnon am 10.00; 21 Mr John Huw Hughes, Llanberis am 5.30; 28 Parch Eric Jones, Bangor am 5.30.

PLYGU'R ECO Diolch i bawb a gefnogodd y gwaith o blygu rhifyn Mehefin o'r Eco yn Ysgol Gymuned Cwmyglo. Diolch i Mr Gwyn Hefin Jones am gyrchu'r Eco o'r Wasg ac i Mrs Mair Lloyd Hughes am gael defnyddio'r Ysgol unwaith yn rhagor.

Cefnogwch ein Hysbysebwy

Y Sgwâr Llanrug

Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol
Cerrig o bob math
ar gael -

Ffôn: (01286)
672898 (dydd)
676285 (nos)



YN YR ARDD!

WIL G. ROBERTS
Bod Gwilym, Cwm-y-glo

Ffôn: (01286) 870674

GWASANAETH PENIGAMP AM BRIS RHESYMBOL

+

J.M.
JONES
A'I FEIBION
GWAITH
CERRIG
BEDDAU

Briwsion Byd Natur

Dafydd Guto

NID WRTH EI BIG...


'Nid wrth ei big mae mesur cyfflog', ebe un hen ddihareb Gymraeg. Aderyn ydy'r cyfflog sy'n byw ar lawr coedwigoedd ac, yn ystod tymhorau'r Hydref a'r Gaeaf, yn hel ei draed mewn lleoedd gwlypion ac ochrau ffosydd ble y bydd yn hela prysed. Enw arall arno yn nalgylch Llanberis yw cyfflogyn - dyna a gofnodir welwch chwi gan Meirion Parry yn ei lyfr Casgliad o Enwau Adar (1962). Mae'r cyfflogyn yn aderyn hefo cythgam o big hir fain; erfyn tra derbyniol dd'wedwn i, pan ddaw'n fater o durio yn y ddaear am ei damaid bwyd, a'r ddaearen wedi rhewi'n rhonc!

Nid yw pigau'r teulu pluog yr un maint nac o'r un ffurfiau ychwaith. Dywedir mai'r ffosil hynaf a ddarganfyddwyd ym myd adar ydyw'r un a darawyd arno ym Mafaria. Perthynai i'r oes Jiwassic. Roedd yr aderyn o'r un maint â phioden, ond bod ganddo ddannedd ynghlwm wrth ei safnau. *Archaepteryx lithographica* oedd yr homar o enw a roddwyd arno. Yr hyn sy'n ddiddorol ydyw bod pigau rhai adar, yn enwedig y rhai sy'n hela pysgod, wedi eu breintio a

darnau bychain tebyg i ddannedd, sy'n cynorthwyo'r adar i gael gwell gafael ar eu hysglyfaeth llithrig yn y dŵr.

Credaf i'r diweddar annwyl gyfaill Ted Breeze Jones, yn ei ffordd dihafal ei hunan, roi darlun hynod gynhwysfawr o'r hyn a feddylir wrth bigau amrywiol yn nheyrnas yr adar. Dyfynnir o'i lyfr *Adnabod Ein Byd* (1968): *Rydych chi'n gallu gwybod, ebe ef beth maen nhw'n ei fwyta trwy edrych ar eu pigau nhw. Edrychwch ar big gnozell y coed. Dyma i chi big galed sy'n tyllu'r coed. Mae tafod hir, gludiog ganddo. i dynnu'r prysed o'r pren. Mae pig cudyll fel bachyn i rwygo'r cig. Mae hwyaden yn chwilio am fwyd yn y llaid ar lan yr afon. Mae ei phig hi fel gogor a'r dŵr yn arllwys ohoni. Pig fach fain i hela prysed sy gan y fronfraith. Hadau caled ydy bwyd y binc. Mae ei phig hi yn fyr i salu hadau.*

Rwyf am ddiweddu os caf i hefo'r aderyn to. Ran fynychaf, ond nid o hyd, pig smwt sydd ganddo; un tra defnyddiol hefyd, chwedl T.G Walker yn *Llyfr Adar* (1950), oherwydd bydd yr aderyn bychan hwn yn mynd ati'n ddygn i *gracio a silio hadau caledion*. Ond yr hyn sy'n



rhyfeddol ydyw bod pig yr iâr yn newid ei siap adeg nythu. Rhwng mis Mai ac Awst y digwydd hynny. Bydd pig y fam-aderyn to yn prifio. Fel hyn y dywaid Walker: *Mae'r gylfin uchaf yn mynd yn bigfain, ac yn hollol wahanol o ran ffurf i'r hyn ydyw ar unrhyw dymor arall o'r flwyddyn. Gedwch inni gofio y megir y cywion ar gynrhon. Cofiwch hefyd mai erfyn anhwylyd fyddai gylfin*

smwt at y gwaith o bigo pethau cyn lleied oddi ar y dail... Dyna'r cywion oll wedi'u magu, y galw am lindys wedi darfod, yr adar bach wedi troi tua'r caeau... beth a ddigwydd wedyn? Dacw'r gylfin yn byrhau'n araf deg unwaith eto, gan gymryd yr hen ffurf yn ei ôl!

Yn sicr, nid wrth ei big, mwy na'i gynffon, y dylid mesur cyfflogyn, nac unrhyw aderyn arall o ran hynny. Digon gwir!

Pa un o'r rhain sydd bwysicaf?

YSWIRIO EICH TŶ
(i arbed colled i chi);

YSWIRIO EICH GAR
(i arbed colled i chi); neu

YSWIRIO EICH BYWYD
(i arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad yw cost yswiriant gyda CDH

Andre (Bethel/Llanberis)

Bryn (Môn)

Euryn (Caernarfon a'r cylch)

John Eifion (Penisarwaun)

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol

Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)

Ffôn: (01248) 355055

**Wavell
Roberts**

CIGYDD

**London House
LLANRUG**

Ffôn: (01286) 673574

PEN CIGYDD Y FRO

Yrŵyn lleol mwyaf blasus

Selsig cartref

Cigoedd parod i'w bwyta

Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU

DEWCH ATOM NI!

Cefnogwch Fusnesau Lleol

CEIR CYMRU
BETHEL (01248) 670451

(Hefyd yng Ngherrig-y-Drudion a'r Gaerwen, Môn)

A ydych yn ystyried newid eich car o fewn y flwyddyn nesaf? Ystriwch y ffeithiau hyn:

1. Mae tri-chwarter y ceir newydd a gaiff eu gwerthu ym Mhrydain yn colli rhwng 25% a 30% o'u gwerth erbyn eu bod yn naw mis oed.
2. Mae cwmnïau mawr a chwmnïau lesio a llogi yn derbyn oddeutu 25% o ddisgownt wrth brynu eu ceir ac felly mae'r cerbydau hyn yn dod ar y farchnad am brisiau isel ac fel arfer mewn cyflwr rhagorol wedi cael eu cynnal a'u cadw heb ystyried costau.
3. Mae gennym brofiad o 40 mlynedd yn prynu a gwerthu ceir ail-law ac rydym, ar gyfartaledd, yn trafaelio mil o filltiroedd bob wythnos yn chwilio am y bargeinion gorau er mwyn eu cynnig i bobl Gwynedd ar elw sydd fel arfer o gwmpas 5% o'r pris.

E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU

GWYN JONES

FFENESTRI ERYRI


GARTH ISAF, LLANRUG

(01286) 650764

neu

W. G. Roberts (Wil Korea)

676741



FFENESTRI

DRYSAU

DRYSAU PATIO

PORCHES

BYRDDAU FFASIA

GLADIO

CONSERFATERIS

BLINYDDOEDD O BROFIAD YN Y MAES

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minalt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. Ffôn: 870292

CLWB ORWIG. Cwblhaodd aelodau'r Clwb eu taith gerdded nodedig o Blue Peris i'r Ganolfan er mwyn codi arian tuag at 'Sialens Milltiroedd Macmillan'. Gwnaed yr ymdrech fwyaf gan Terry Taylor. Cerddodd i gopa'r Elidir Fawr (3030tr.) dair gwaith yng nghwmni ei gi, Minnie, yn ogystal â cherded 10 milltir arall a beicio 25 milltir.

Cymerodd rhai o'r plant ran yn y daith gerdded a drefnwyd gan Sue Michaels a Terry Taylor ar y Sadwrn canlynol. Eu henwau oedd Madlen, Taliesin, Mabon, Merin a Derri gyda'u mamau Stet Farrar a Sharon Sinclair.

Cyflwynwyd anrheg priodas i Karen, un o weithwyr y Ganolfan. Cafwyd sgwrs ddifyr iawn am y gweithgareddau awyr agored a ddarperir ar gyfer yr ieuenctid sy'n mynychu'r Ganolfan gan Oliver Knowles, un arall sy'n gweithio yno.

Bwriedir cynnal te melfus a hufen ar Orffennaf 18 ac yr un diwrnod gwahoddir yr aelodau i gystadlu ar lunio gardd fach. Enillwyr y raffl oedd Margaret Faulkner, Betty Roberts a Terry Taylor. Rhoddwyd y te gan Ray a Betty Bower.

DAMWAIN. Rwyf yn siwr ein bod yn dymuno adferiad llwyr a buan i Dylan Lewis, 3 Bro Elidir. Mae Dylan wedi cael damwain hofe beic modur ac ar hyn o bryd mae o yn Ysbyty Gwynedd. Gobeithio y cawn ei weld adref yn lled fuan. Brysia wella, Dylan.

CLWB ORWIG. Mewn cyfarfod diweddar o'r Clwb enillwyr y gystadleuaeth 'Pwy yw Pwy' pryd y disgwyliad i'r aelodau adnabod ei gilydd o luniau a dynnwyd ohonynt pan yn ifanc, oedd Elizabeth a Morfudd Jones. Llwyddwyd i adnabod 15 allan o'r 18 llun.

Diolchwyd i'r Llywydd, John Cantrell, am baratoi copïau o'r lluniau ar gyfer y cystadleuwyr.

Cafwyd adroddiad boddhaol iawn am lwyddiant y daith gerdded nodedig a gyflawnwyd gan 14 aelod. Disgwylir cyhoeddi cyfanswm yr arian a godwyd tuag at Gronfa Macmillan yn fuan.

Rhoddwyd y te a gwobrau'r raffl gan Sue Michael ac Eve Braithwaite. Enillwyr y raffl oedd Betty Ann Jones, Katty Hughes a Morfudd Jones. Dymunwyd yn dda i Megan Morris, Katie Hughes a Barbara Parkinson ar achlysur eu pen-blwyddi yn ystod y mis.

CAPEL SARDIS. Cynhaliwyd Cymanfa Ganu'r Bedyddwyr yng Nghaersalem, Caernarfon ar 5 Mai. Yr arweinydd oedd Mrs Enid Griffith, Porthaethwy. Llwyddodd rhai o blant Ysgol Sul Sardis i ennill seren aur ar eu tystysgrifau yn yr arholiad Llafar, sef Bleddyn Clarke, Miriam a Megan Jones. Yna yn ddiweddarach yn y mis bu Megan Jones a Manon Clarke yn cymryd rhan yn Oedfa Ieuenctid Cymanfa Arfon ym Mhen-y-groes a rhoi gyfrif da ohonynt eu hunain. Da iawn chi blant, Daliwch ati.

Y GANOLFAN. Cynhaliwyd pwyllgor o'r uchod yn y Ganolfan nos Fercher, 12 Mehefin, pryd y trosglwyddwyd arian y Clwb Snwcer i'r Ganolfan - cyfanswm o £161. Er y bu cryn siarad a dadlau, ni phasiwyd dim. Cynhelir y pwyllgor nesaf ar nos Iau, 27 Mehefin, pryd y disgwyliwn i Mr Peter Lunt Williams o'r Swyddfa Addysg fod yn bresennol.

SEFYDLIAD PRYDEINIG Y GALON. Fel canlyniad i'r casgliad o dŷ i dŷ yn ddiweddar, casglwyd y swm o £21.88 yn Ninorwig gan Ivor Phillips. Dymuna'r Pwygor ddiolch i bawb am bob cefnogaeth.

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith), 677438 (cartref)

SEFYDLIAD PRYDEINIG Y GALON. Fel canlyniad i'r casgliad o dŷ i dŷ yn ddiweddar, casglwyd y swm o £93.78 yng Nghaeathro gan Marian Hughes. Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i bawb am bob cefnogaeth.

DAU BEN-BLWYDD ARBENNIG. Dyna yw hanes Mr a Mrs Hugh Jones, 22 Glan Gwna Terrace. Yn ystod mis Gorffennaf bydd Hugh yn 80 oed a Margaret yn 75. Llongyfarchiadau mawr i'r ddau.

DIOLCH. Ffordd dda o ddod i adnabod trigolion newydd oedd cychwyn dosbarthu Eco'r Wyddfa. Dyna wnaeth Rhiannon Roberts, Gefn Rhos Isaf. Diolch yn fawr iddi am fod yn gyfrifol am rannu'r Eco ers deng mlynedd. O hyn ymlaen bydd Mrs Bethan Iwan yn rhoi help llaw i Marian Hughes i gario'r gwaith ymlaen. Diolch Bethan a Rhiannon.

O'R YSBYTY. Da gweld Mr Alun Roberts, 10 Erw Wen adref o'r ysbyty ac wedi gwella.

Hefyd bu Margaret Jones yn Ysbyty Gwynedd am fis. Erbyn hyn mae hi adref - yn 'Ysbyty'!

EISTEDDFOD YR URDD. Enillodd Iwan Parry Jones, Bryn Eglwys y wobwr gyntaf mewn cystadleuaeth gemwaith ym Mhrifwyl yr Urdd yng Nghaerdydd. Roedd Hannah Hughes, Llyngele, yn aelod o Barti Bontnewydd a oedd yn drydydd yn y gystadleuaeth cyd-adrodd.

GEMAU'R GYMANWLAD. Bu torch Gemau'r Gymanwlad, a fydd ym Manceinion ddiwedd mis Gorffennaf, ar wibdaith trwy Gymru. Dwy o'r rhai oedd yn ei chario yn ystod y daith oedd Jayne Lloyd, Bodawd a Hannah Hughes, Llyngele.

TYNFA MISOL. Enillwyr mis Mehefin oedd: £40: (97) Dewi Jones, 13 Erw Wen; £25: (12) Geraint a Zonia Bowen, Cefn Coed; £15: (33) Margaret a Cledwyn Jones, Ysbyty; £5: (53) Brenda Anderson, Tafarn Bryngwna.

GWASANAETHAU'R CAPEL. Gyda'r gwaith ychwanegol ar y moderneiddio ac addasu'r Capel yn bwrw ymlaen bydd y gwasanaethau yn parhau yn Ystafell y Bwrdd, Garej Gwalia tan y gwyliau haf.

Gorffennaf

7 11.00 Ysgol Sul, 2.00 Parch Gwenda Richards;

14 11.00 Ysgol Sul;

21 Dim Ysgol Sul, Gwasanaeth Teuluol am 2.00 efo Mr Dafydd Iwan.

Diolch i deulu Garej Gwalia am y defnydd parod o'r Ystafell Bwrdd dros y misoedd diwethaf.

**Cefnogwch
ein
Hysbysebwyrr**

DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson)
CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'stafell fyw, llofft
- Prisiau cystadleuol
- Danfon am ddim i holl ardal Bro'r Eco

Am Offer Tŷ a Gardd...

FORMAG

41A STRYD FAWR, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872501

SNOWDONIA PARK

WAUNFAWR

- Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant
- Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol
- Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go iawn

Ffôn: 650218

GWASANAETH LLEOL AR GYFER

PARTÏON • PRIODASAU • PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU ...

**RHOSTIO
MOCHYN**



AR GYFER POB ACHLYSUR

* Cig o ffermydd lleol * Partïon rhwng 40 a 400!

* Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau

* Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!

Cysylltwch â

JOHN BRYNAFON, LLANRUG

Y DYD CIG ar 675190 / 673188

Ysgol Brynrefail

Dosbarth Di-Fwg 7i



Wedi cymeryd rhan yn y gystadleuaeth trwy'r flwyddyn daeth dosbarth 7i i'r brig trwy ennill gwobr o £100.

Maent wedi addo peidio

ysmygu a gobeithio y bydd pob un ohonynt yn cadw at eu gair. Da iawn chi. Bydd yr arian yn mynd i gronfa'r ysgol fel bod pawb yn clwa.

Coctêls Di-alcohol!



Dyma rai o ddisgyblion Blwyddyn 8 a fu wrthi'n brysur iawn yn ddiweddar yn cynllunio a dyfeisio coctêls heb alcohol. Cafwyd llawer o hwyl yn arbrofi gyda gwahanol ffrwythau er mwyn creu blas derbyniol.

Mae alcohol yn un o'r cyffuriau peryclaf o'r deuddeg grŵp sydd ar gael - mae'n gyfrifol am ladd

miloedd o bobl bob blwyddyn. Y pryder mawr yw, gan nad yw alcohol yn anghyfreithlon, fel ecstasi neu LSD er enghraifft, nad yw pobl yn sylweddoli'r gwir berygl.

Roedd golwg go amheus ar ambell goctel a bod yn onest ac roedd rhai yn llawer mwy derbyniol na'i gilydd!

Cymdeithas Cyfeillion Ysgol Brynrefail Enillwyr Clwb Cant 2002


Ebrill: (117) Mr a Mrs R. Morgan, Bod Idris, Penisarwaun: £331.00; (126) Mari Deiniol, 12 Bryn Eglwys, Penisarwaun: £18.60; (79) Mrs Ann Jones, 36 Glanffynnon, Llanrug: £12.40.

Mai: (124) Dr Gwyn Williams, 3 Preswylfa, Llanberis: £31.00; (116) Fiona Davies, Llwyn Cwlyn Bach, Llanberis: £18.60; (35) Mrs Yvonne Roberts, Bryn Awel, Llanddaniel: £12.40.

Mehefin: (93) Mrs Ann P. Jones, Nant, Llanrug: £31.00; (8) Mrs H.W. Sutherland, Pen y Bont, Deiniolen: £18.60; (19) Mrs Elsie Owen, Hafod y Rhos, Llanrug: £12.40.

Llongyfarchiadau a diolch am eich cefnogaeth bob amser. Gwerthfawrognwch aelodau newydd i'r Clwb Cant. Manylion ar gael o Swyddfa'r Ysgol.

Readathon



Cafodd disgyblion blwyddyn 7 ac 8 gyflwng i gymeryd rhan yn y Readathon eleni, ac o'r ymateb, bu'n llwyddiant mawr.

Darllen er mwynhad yw'r bwriad ac os yw teuluoedd neu ffrindiau y n ddigon caredig i'w noddi maent hefyd yn codi arian at achosion da.

Daeth llawer ag arian i mewn ac fe gasglwyd swm anrhydeddus iawn. Diolch yn fawr iawn am eich cefnogaeth unwaith eto.

Bu rhai'n brysur iawn yn darllen nifer o lyfrau ond, wrth gwrs, roedd eraill yn darllen eu ffefrynnau. Dyma oedd gan dosbarth 7O i'w ddweud:

Siwan Angharad Humphreys yn hoffi'r llyfr 'Making Waves'; Sasha Williams wrth ei bodd hefo 'Harry Potter and the Chamber of Secrets' a dyma a ddywedodd hi: 'Mi fwynheais y llyfr yma yn fawr iawn, digwyddiadau gwahanol a llawer o hud a lledrith ynddo. Fy hoff ran oedd y gêm Quidich, llawer o bethau anisgwyl ynddo!'

Gwenllian Owen hefo'r hen ffefryn, 'Charlie and the Chocolate Factory' - dydi stori dda byth yn mynd allan o ffasiwn!

Un cithaf modern yw 'Mates, Dates and Inflatable Bras' ond fe gafodd Sian G. Lloyd hwyl fawr wrth ddarllen hanes Lucy, Nesta ac Izzie. Credaf fod Cathy Hopkins yn un o hoff awduron Sian ar ôl y llyfr yma.

Naomi Edge yn gobeithio cael Readathon bob blwyddyn ar ôl cael blas ar 'Vickey Angel' gan Jacqueline Wilson. Llyfr sy'n delio hefo problemau'r

arddegau.

Dewi Meirion Jones wrth ei fodd hefo'r llyfr 'The Making of the Lost World Jurassic Park', llyfr oedd yn dweud hanes Steven Spielberg yn cael syniadau sut i wneud ei ffilm ac mae Dewi am roi 99% i'r llyfr yma.

Gethin Price Morris wrth ei fodd hefo straeon ysbrydion ac yn awgrymu i bawb ddarllen 'Uninvited Ghosts' i gael amser iasoc!

Antur sy'n mynd a bryd Oliver Cain wrth ddarllen 'Holes', hanes bechgyn yn chwilio am drysor ac yn ei ddarganfod.

Gwenno Jones yn methu penderfynu pa un oedd ei ffefryn, 'The Twits', 'Fantastic Mr Fox' neu 'The Mum Minder' ond beth ydi'r ots, fe wnaeth fwynhau'r tri llyfr.

'Honey I shrunk the Kids' oedd yn mynd a bryd Stacey Leanne Davies, a Jessica Whitehead wrth ei bodd hefo 'Many Happy Returns and other Stories'.

'Girls in Love' oedd ffefryn Lois Morris gan yr awdures Jacqueline Wilson eto a dyma ddywedodd Lois: 'Roedd y llyfr yn sôn am dair o genod blwyddyn naw a phob un ohonynt wedi disgyn mewn cariad - fel mae genethod yn wneud! Eisiau gwybod mwy? Wel, darllenwch y llyfr.'

Mae'n amlwg fod y disgyblion yma wedi mwynhau eu hunain yn fawr iawn ac wedi cael profiadau gwerthfawr o'r Readathon. Oes wir, mae lle i'r llyfr, hyd yn oed yn yr oes gyfrifiadureg hon.

LLANBERIS

Gwyneth ac Elfion Roberts, Beews Eryri. Ffôn: 870491

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390

FRED DIBNAH YN TANIO



Gwahoddwyd y simneir byd enwog, Fred Dibnah i agoriad swyddogol tymor haf 2002 rheilffordd yr Wyddfa.

Mae Fred yr un mor enwog am ei hoffter o drenau stêm ac roedd yn fraint fawr ganddo gynorthwyo fel taniwr yn ystod ei daith ar y tren i'r copa. Cyflwynwyd rhaw danio arbennig iddo gan Mr Alan Kendall, rheolwr y cwmni, i ddathlu yr achlysur. Profodd ei ymweliad yn un hynod boblogaidd gyda staff y lein fach a threuliodd gryn amser yn ymddiddan gyda'r hogiau.

LLONGYFARCHIADAU i Paula Roberts, 8 Ffordd Tŷ Du ar ennill B.Sc gydag Anrhydedd Dosbarth Cyntaf mewn Gwyddoriaeth Amgylcheddol ym Mhrifysgol Cymru Bangor.

DIOLCH. Dymuna Dilys Baylis ddiolch o galon i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am y toreth cardia, anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 90 oed yn ddiweddar.

RHODD ANRHYDEDDUS. Yng Nghlwb y Gweithiwr rhoddwyd £150, gan Glwb Bingo Elusennol, gan y Trefnydd, Helen Parry, i Twm John Roberts, er rhoi cymorth i Glwb Pêl-droed leuenctid y pentref, lle mae pump o dimau yn cael eu rhedeg.

PLAS PENGWAITH. Yn dathlu eu pen-blwydd ym mis Gorffennaf bydd Mrs Letticia Roberts, Mrs Ceridwen Hughes a Mrs Kathleen Jones. Dymunwn ben-blwydd hapus iddynt.

Yn Ysbyty Gwynedd Bangor bu

farw Mr J. Eric Williams ar 31 Mai. Cynhaliwyd Gwasanaeth Angladd Cyhoeddus yn y Cartref ddydd lau, 13 Mehefin ac i ddilyn ym Mynwent Coetmor Bethesda. Gwasanaethwyd gan y Parch Philip Hughes gyda Mr Gareth Jones. Diolch yn fawr iddynt.

Hoffai pawb yma ddatgan eu diolchgarwch i'r ymgymerwyr am y trefniadau a'r gwasanaeth ar y diwrnod.

Yn yr ysbyty hefyd bu farw Mr O. Glyn Jones ar 15 Mehefin. Nid oedd wedi bod yn dda ers tro. Fel Eric, yr oedd Glyn yn gymeriad yn y Cartref a'r pentref a phawb yn ei adnabod yn dda. Estynnwn ein cydymdeimlad i'w deulu yn eu profedigaeth. Nid oes gwybodaeth am fanylion yr angladd hyd yn hyn.

Yn Ysbyty Eryri mae Mr Roland Jones o hyd ac estynnwn ein dymuniadau am wellhad buan iddo. Mae Mrs Hilda Cepos yn Ysbyty Gwynedd ac anfonwn ddymuniadau da iddi hithau hefyd.

CYMORTH CRISTNOGOL. Wythnos Cymorth Cristnogol: Diolch i bawb a fu'n casglu at yr apel eleni yn Llanberis. Casglwyd £776.60 yn y pentref. Diolch am bob cyfraniad.

SEFYDLIAD PRYDEINIG Y GALON. Fel canlyniad i'r casgliad o dŷ i dŷ yn ddiweddar, casglwyd y swm o £437.70 yn Llanberis gan Nia Thomas, Cath Pritchard, Nellie Morris, Helen Parry, Bet Hughes, Sioned Roberts, Dilys Roberts, Jean Roberts a Margaret Prydderch. Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i bawb am bob cefnogaeth.

TRIPIAU PLANT DOLBADARN. Bu plant adran lau yr ysgol ar y tren i ben yr Wyddfa ar 19 Mehefin tra bu'r babanod am drip ar Drên y Bach y Llyn. Bydd lluniau o'r tripiâu yn rhifyn nesaf yr Eco.

LLANBERIS A'R EISTEDDFOD. Bydd cysylltiad diddorol rhwng Llanberis a'r Eisteddfod Genedlethol yn Nhyddewi eleni. Mam y Fro yn yr eisteddfod fydd Gwenno Teleri Wyn, merch Eirlys Peris Davies ac wyres i'r diweddar Barch a Mrs Ben Owen a fu yn weinidog Nant Peris a Jerusalem am flynyddoedd. Athrawes yn ysgol y Preseli, Crymych yw Gwenno ac mae ganddi hi a'i phriod, Hefin Wyn, dri o blant sef Rhydian, Osian ac Eurgain. Osian fydd un o'r Macwyaid yn y seremoni.

**Cefnogwch
ein
Hysbysebwy**

CEIROPODYDD

Mrs S. Groom MSSCh, MBChA
Yn ymweld â'ch Cartref i drin traed
Triniaeth ar gyfer:

Traed Poenus; Groen Caled; Yrrucae; Cyn a Chroen Caled;
Ewinedd yn tyfu i'r byw; Terri Ewinedd; Gofal a Thylio Traed.

Ffôn: (01248) 605450 neu

07747 696267 (symudol)

NANT PERIS

Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon. Ffôn: (01286) 871820

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390

CYMORTH CRISTNOGOL. Wythnos Cymorth Cristnogol: Diolch i bawb a fu'n casglu at yr apel eleni yn Nant Peris. Casglwyd £49.98 yn y pentref. Diolch am bob cyfraniad.

SEFYDLIAD Y GALON. Fel canlyniad i'r casgliad o dŷ i dŷ yn ddiweddar, casglwyd y swm o £42.81 yn Nant Peris gan Prydwen Pritchard. Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i bawb am bob cefnogaeth.



Cafwyd hwyl a sbri ym mharti'r 'Jiwbilli'.

Bistro
LLANBERIS

Ffôn 871278

www.ybistro.co.uk

Perchnogion: Danny a Nerys Roberts

Dewch i'r ganolfan newydd
am fargeinion dodrefn



yng Nghapel Mawr

LLANRUG

Ffôn: 674141

Ar agor: Llun - Sad 10-6;
Sul 10-4

Rygiau, Cabinets, Byrddau,
Cypyrddau dal llyfrau,
Desgiau, Cadeiriau, Soffas,
Gwelyau ayyb

**GORS BACH
PANEL
BEATING
SERVICE**

yn LLANRUG
ar gyfer eich
holl anghenion

- Trin cyrff ceir
- Gwaith Mecanyddol
- Gwasanaeth/Service
- Valleting

(01286) 870814

Jones

Contractwyr
Trydan

Goleuadau
Argyfwng ac
offer Larwm Tân

Gwasanaeth i
Gymru Gyfan

Aelod o

NICEIC

Contractwyr Trydan
Eisteddfod yr Urdd
a'r Genedlaethol

&

Whitehead Cyf.

Prif swyddfa

Penrall, Tregarth, Gwynedd

Ffôn: 01248 601257

Ffôn (nos):

01248 600477 a 601011

Ffacs: 01248 601982

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

DIOLCH. Dymuna Beryl a Wil, Arfryn, ddiolch o galon i gymdogion a ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli mam annwyl. Diolch am y llu cardiau a'r galwadau ffôn, ac yn arbennig am y rhoddion hael tuag at Ymchwil Caner.

SEFYDLIAD Y GALON Fel canlyniad i'r casgliad o dŷ i dŷ yn ddiweddar, casglwyd y swm o £493.42 yn Llanrug gan Ann Lloyd Griffith, Bethanne Williams, Eirianwen Thomas, Gwenda Roberts, Julie Jones, Nan Humphreys, Jane Jones, Beryl Thomas, Mair Parry, Meirwen Lloyd, Mary Roberts a Margaret E. Jones. Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i bawb am bob cefnogaeth.

APEI BANGLADESH CAPEL Y RHOS. Diolch i'r Parch Dafydd Hughes a Mrs Hughes am groesawu aelodau a ffrindiau i 'daro i mewn' am baned a sgwrs yn eu cartref yng Nghaernarfon ar ddydd Mawrth, 19 Mehefin. Diwrnod difyr o gymdeithasu. Diolch i bawb am wneud y diwrnod mor llwyddiannus.

Rhown ein cymorth i gefnogi Bangladesh o wirfodd calon 'oherwydd rhoddwr llawen y mae Duw'n ei garu'.

YR YSGOL GYNRADD. Yn ddiweddar daeth Cathrin Aran i'r ysgol i ddweud a darllen storïau wrth ddisgyblion Bl. 1 a 2. Roedd eu gwrandawriad a'u hymateb yn dangos eu gwerthfawrogiad iddi.

Llongyfarchiadau i Anti Margaret, gofaluwaig yr ysgol ar ddod yn nain eto. Mae hi a Tecwyn wedi gwirioni gyda Lowri, merch fach Mari a Henry.

Rydym yn falch o groesawu Ms Lynch yn ôl atom ac, wrth ffarwelio â Mrs Oliver a fu gyda ni yn ei habsenoldeb, yn diolch iddi ac yn dymuno'n dda iddi yn ei swydd newydd yn Ysgol Cwm y glo ddechrau mis Medi.

Rydym hefyd wedi gwerthfawrogi cwmni a chymorth Miss Lowri Morris a Mr Llŷr ap Alwyn a fu yma ar brofiad dysgu o Goleg y Brifysgol Bangor. Dymunwn yn dda i'r ddau yn y dyfodol.

Daeth yn ddiwedd blwyddyn ysgol arall a bydd disgyblion Bl. 6 yn ein gadael am y cam nesaf o'u gyrfa yn Ysgol Uwchradd Brynrefail. Dymunant ddiolch i'r Prifathro a'r staff am y croeso maent wedi ei ddarbyn yn ystod y dyddiau y buont yno yn ymweld. Pob hwyl i bob un ohonoch. Gwnewch eich gorau.

Trip Gaerdydd. Eleni eto dymuna'r plant a fu ar y trip ddiolch i staff yr ysgol am roi'r cyfle iddynt gael mynd i Gaerdydd ar driip ysgol.

Cawsant groeso gan Dafydd Wigley AC yn y Cynulliad a chyfle i'w holi ynglŷn â'i waith. Roedd gweithgareddau y ganolfan 'Tecnicwest' yn sialens iddynt a rhai wedi meddwl yn hir sut oedd datrys ambell dsag.

Bu'r ymweliad â'r Gerddi Botanig yn agoriad llygaid a'r

gwaith ar blanhigion wedi dod yn fyw a diddorol iddynt. Cafwyd sesiwn ar ddeall byd y planhigion drwy ffilm ac arddangosfa.

Roeddynt wedi blino'n llwyr yn cyrraedd adref ac yn falch o fwrw Sul i ddadflino.

Nofio. Oherwydd y trip i Gaerdydd, y tîm dan 10 oed yn unig aeth i gynrychioli'r ysgol i Gala Nofio Arfon eleni. Nofiodd pob un ei orau a chawsant gystadleuaeth dda.

Rygbi. Ar 22 Mai, yng Nghlwb Rygbi Caernarfon, bu tîm rygbi'r ysgol yn cystadlu mewn gornest. Yr aelodau oedd Sion Emyr, Gerallt Bryn, Gerallt Bracegirdle, Chris, Ben, Carl, Iwan, Sion Eifion, Dafydd Emlyn, Declan a Gethin. Chwaraewyd yn ymdrechgar yn erbyn timau ysgol Yr Hendre a'r Waunfawr.

Tenis: Aeth chwê tîm tenis i lawr i'r Ganolfan yng Nghaernarfon i gynrychioli yr ysgol yn Nhwrnament Tennis Ysgolion Cynradd Gwynedd. Cafwyd diwrnod ardderchog o gystadlu gyda phob tîm yn gwneud yn arbennig o dda. Daeth llwyddiant i dîm dan 9 merched yr ysgol, sef Heledd Roberts, Gwenno Gibbard, Rosie Benson a Rhiannon Hughes a byddant yn mynd ymlaen i Fae Golwyn i gymryd rhan yn Nhwrnament Gogledd Cymru. Dymuniadau gorau iddynt.

Criced. Aeth tîm criced yr ysgol i gaeau Treborth i chwarae. Enillwyd yn y rownd gyntaf yn erbyn Ysgol Niwbwrch a cholli'n anrhydeddus yn erbyn tîm cryf iawn o Borthaethwy yn yr ail rownd.

Pêl-droed y Merched. Brynhawn Mawrth aeth tîm pêl-droed y merched i Gaernarfon i gystadlu yng nghystadleuaeth 5-bob-ochr. Chwaraeodd y tîm yn dda iawn ond colli yn y gêm gyn-derynol i Ysgol Maesincla - enillwyr y Twrnament.

Yr Urdd. Llongyfarchiadau i Sion Emyr, Bl. 6 ar ddod yn drydydd yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn y gystadleuaeth Ysgrifennu Barddoniaeth dan 12 oed.

Mabolgampau'r Urdd. Bu cystadlu brwd yn y mabolgampau ar gae Ysgol Syr Hugh Owen a bydd Debbie Williams, Gwion Williams, Alex Lynes, Leon Rochell ac Awen Hughes yn cystadlu yn unigol ym mabolgampau'r sir ym Mangor a bydd tîm y ras gyfnewid dan 10 oed merched hefyd yn cynrychioli Cylch Arfon, sef Debbie, Enfys Roberts, Awen a Tracy Griffith. Dymunwn yn dda iddynt yno hefyd.

Ffair Haf. Gynhelir y Ffair eleni ar fuarth yr ysgol brynhawn Sadwrn, 13 Gorffennaf. Bydd stondinau, gemau ac adloniant o bob math a chyfle i'r plant ddangos eu doniau. Dowch yn llu i gefnogi'r ysgol a'i gweithgareddau.

Ar ddiwedd blwyddyn dymunwn ddiolch i bawb sydd wedi cefnogi'r ysgol mewn unrhyw ffordd yn ystod y flwyddyn.

MERCHED Y WAWR. Aeth nifer



Sion Emyr o Ysgol Llanrug a ddaeth yn drydydd am gyfansoddi cerdd yn Eisteddfod yr Urdd. Fe gyhoeddir y gerdd yn y rhifyn nesaf.

dda o'r aelodau i Fwyty Amser Da, Llanrwt nos Wener, 14 Mehefin. Cafwyd pryd blasus a chwîs ysgafn i ddilyn. Diolch i Bethanne Williams am drefnu noson mor hwyllog ac am fod yn feirniad mor wreiddiol.

Diolchodd Megan Roberts, y Llywydd, i'r swyddogion am eu cymorth yn ystod y flwyddyn ac i'r aelodau am eu cefnogaeth. Diolchodd Menna Williams, y Llywydd newydd, i Megan am ei gwaith da hithau.

Cafwyd cyfle i weld y cwpan a enillodd y gangen yng nghystadleuaeth y Llyfr Lloffion. Atgoffwyd yr aelodau bod angen dod â'r deunydd ar gyfer Llyfr Lloffion eleni i Nan cyn gynted ag y bo modd.

Mae tocynnau ar gyfer y noson 'Arddangos a Blasu' yng Ngwesty'r Celt, Caernarfon ar 5 Gorffennaf ar gael gan Nan am £5.00.

Mae'r pwyllgor eisoes wedi cyfarfod i drefnu rhaglen y flwyddyn nesaf. Mae groeso i aelodau newydd ymuno â ni yn y Ganolfan ar yr ail nos Fawrth o bob mis.

MARWOLAETH. Yn sydyn iawn dydd Mawrth, 4 Mehefin, bu farw Glyn Williams, 6 Stad Minffordd yn 50 oed. Cydymdeimlwn yn ddifffuant iawn â Gwen, ei wraig, Gemma, Alwyn, Lesley a Susan a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth fawr.

Hefyd bu farw Mrs Malltwn Roberts, Glan Moelyn ar ôl gwaeledd hir. Cafodd ofal caredig gan y teulu ac, yn y diwedd, gan staff Ysbyty Bryn Seiont. Bydd colled fawr iddynt i gyd. Anfonwn ein cydymdeimlad at Mr Wil Roberts a'r plant a'r teulu.

PRIODAS. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Ian Parry, Gwanwyn, Ffordd yr Orsaf ar ei briodas â Helen Thomas o Llannerch-y-medd.

COFION GORAU at Mrs Gwyneth

CEUNANT

CYDYMDEIMLAD. Anfonwn ein cydymdeimlad at Glyn a'r teulu, Penhafodlas, Ceunant yn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl iawn.

Roberts, Tŷ Gwyn. Rydym yn meddwl amdanoch, ac i bawb arall sydd ddim yn dda, gartref neu yn yr ysbyty. Brysiwch wella.

YSGOL GYNRADD

Tlws Eco'r Wyddfa

Roedd nifer fawr o ddisgyblion yr ysgol yn cystadlu dros ddwy noson yng nghystadleuaethau Tlws yr Eco. Mae'n braf gweld cymaint o frwdfrydedd yn y dalgylch. Fe hoffem longyfarch y timau newydd Blwyddyn 2 am wneud mor ardderchog yn eu cystadleuaeth gyntaf gyda nifer ohonynt yn saith oed.

Llongyfarchiadau hefyd i'r timau pêl rwyd a'r bêl-droed dan 12 oed am wneud mor dda.

RASUS HWYAI

Cymdeithas Chwaraeon dan 8, yn Glangwna ar 19 Mehefin

Ras 1.

1. Rhif. 184: Hefina Roberts; Awelfryn, Tanycoed; 2. Rhif. 125: Ellen Williams; 3. Rhif. 27: Jean Jones, Bontnewydd.

Ras 2.

1. Rhif. 89: M. Rogers, 8 Cae Berllan, Caernarfon; 2. Rhif. 80: Zoe, 38 Bro Rhyddallt, Llanrug;

3. Rhif. 137: Sian Williams, Nant y Glyn, Llanrug.

Ras 3.

1. Rhif. 3: Iwan Roberts; 2. Rhif. 36: Rhys Evans, Ael y Garth, Caernarfon.

Fe hoffai'r pwyllgor ddiolch yn fawr iawn i bawb am gefnogi. Mae'r arian yn cael ei ddefnyddio i hyrwyddo hyfforddiant chwaraeon a phêl-droed dan 8 oed yn Llanrug.

GWOBR GENEDLAETHOL BECTA (British Educational Communications and Technology)

Yn dilyn gwobr arbennig gan BBC online Cymru llynedd pan enillodd yr ysgol gyfrifiadur Apple Mac, sganiwr ac argraffydd, mae'n braf cael llongyfarch y plant unwaith eto gan fod y gwaith bellach wedi ennill gwobr genedlaethol, sef camera digidol rhyngweithiol i'w osod ar y byrddau gwyn. Mae'r wobwr yn cael ei rhoi am waith technoleg gwybodaeth traws gwricwlaidd.

PWYLLGOR CAE

CHWARAE NANT Y GLYN

Mae'r pwyllgor uchod wedi tynnu allan gynllun tair blynedd i geisio adfer sefyllfa druenus caeau chwarae Llanrug. Mae ffeil yn cynnwys y manylion i'w gweld yn y caffî - 'Caffi Coffa'.

Rydym yn awyddus i drigolion Llanrug gael cyfle i ymateb ac arwyddo'r ddeiseb i roddi pwysau ar y cynghorau i fuddsoddi arian yn y fenter.

BEICS WIL



BEICIAU NEWYDD
AC AIL LAW

• TRWSIO • GYNNAL
• PARTIAU



SIOP AROSFA, WAUNFAWR (01286) 650 723

Lluniau o Gystadlaethau Tlws yr Eco



Bethel 'B' ennillwyr Pêl-rwyd Bl 5/6.



Tim Llanrug – ennillwyr Tlws yr Eco Bl 5/6.



Ysgol Dolbadarn, ail yng nghystadleuaeth pêl-rwyd Bl 5/6.



Tim Bethel – ail yng nghystadleuaeth pêl-droed Bl 5/6.



Tim Ysgol Bethel ennillwyr Pêl-rwyd Bl 3/4.



Tim Ysgol Deiniolen ennillwyr Tlws Bl 3/4.



Ysgol Llanrug – ail yng nghystadleuaeth Pêl-rwyd Bl 3/4.



Tim Bethel – ail yng nghystadleuaeth Pêl-droed Bl 3/4.

Cyngor Gwynedd – Etholaeth Bethel Seion a Rhiwlas

Dyna flwyddyn arall eto wedi mynd heibio ym mywyd Cyngor Gwynedd. Mae'n dda medru adrodd fod pethau yn dod at ei gilydd yn reit foddhaol. Mac llawer o'r gwaith sy'n cael ei awgrymu'n flynyddol yn barod wedi ei gwblhau ym mhentrefi Bethel a Rhiwlas. Y siom fawr i mi yw y ffaith ei bod yn anodd iawn cael y maen i'r wal ble mac Seion yn y cwestiwn, cyn belled ac mac cael unrhyw waith sylweddol i'w roi ar y rhaglen waith. Beth yw'r rheswm? Wel bydd yn rhaid ceisio mynd at wreiddyn hyn yn y misoedd nesaf. Buaswn yn gwerthfawrogi mwy o syniadau am wellianau gan y pentrefwyr. Rwyf wir yn gobeithio cael rhywbeth mwy positif i'w adrodd yn y misoedd nesaf.

Cyn belled ac y mae Bethel a Rhiwlas yn y cwestiwn mae pethau'n symud ymlaen yn llawer mwy rhwydd a chawn cdrych ymlaen am weld y gwaith canlynol yn cael ei gwblhau yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n rhedeg i Ebrill 2003.

Bethel

O'r diwedd mae wedi ei gadarnhau y bydd gwaith yn dechrau yn fuan ar ôl y Nadolig ar adeiladu cylchfan yng Nghroesffordd Tyddyn Hen. Dyma waith sydd ei wir angen gan fod y fan ymysg y gwaethaf am ddamweiniau oddi fewn y sir.

Ail-wynebu strydocdd Saron o'r gyffordd ger St. Teilo i gyffordd ffordd Tre Gof. Yn cynnwys, wrth gwrs, Stryd Ganol a Stryd Bach;

Gosod cyrbau ger y tawelyddion traffig yn Tre Gof a hefyd gwter i wneud i ffwrdd â'r dŵr yr y wyneb.

Ail-wynebu B4366 o'r pentref i Gors Bach (ac ymlaen o Groeslon Tŷ Mawr i gyffordd Rhiwlas);

Symud arwyddion 30 m.y.a. a dylunio arwyddion a marciau ffordd at ddiogelwch cerddwyr a defnyddwyr y cae pêl-droed newydd;

Cyfarfod ar 24 Mehefin gyda swyddogion yr adran Priffyrdd a'r Cyngor Cymuned i drafod cynllun i dacleso'r fynedfa i Stad y Rhos (adroddaf ar hyn yn y mis nesaf);

Dylunio a dechrau cynllun gwelliannau cyffredinol i Stad Cremlyn.

Yn ogystal ar uchod mae'r cynllun Mân Wellianau Adran Priffyrdd yn gwahodd cynghorwyr i enwebu dau gynllun ar gyfer rhaglen newydd. Bydd hyn yn dod i rym yn ystod Medi eleni. Un cynllun sydd dan ystyriaeth yw creu troed-ffordd o'r pentref hyd at

Erw Bian. Bydd rhaid cael cydbwysedd, felly bydd yn rhaid i'r cynllun arall ddod un ai o Seion neu Rhiwlas.

Rhiwlas

Rai misoedd yn ôl fe ddosbarthwyd holiadur i bob tŷ yn y pentref a derbyniwyd dros 70 yn ôl. Cafwtid awgrymiadau adeiladol ar beth fuasai'n uwchraddio cyflusterau'r pentre. Mae'r dadansoddiad o'r awgrymiadau pellach wedi eu cwblhau. Byddaf, ar ddechrau Gorffennaf, yn cyfarfod a swyddogion o adran Cynllunio a Datblygu Economaidd y Cyngor. Fel canlyniad i hyn bydd cyfarfod cyhoeddus yn cael ei gynnal ar ddiwedd Medi

eleni yn Ncuadd y Pentref i drafod cynlluniau am y dyfodol a'r ffordd ymlaen i'w gweithredu. Dyma rai o'r pwyntiau roedd y mwyafrif wedi eu codi:

Man parcio i'r ysgol;
Cynllun tawelu traffig yn y pentref yn gyffredinol, yn enwedig o amgylch yr ysgol;
Tacluso a chreu manau parcio ar Cae Pella, a thacluso cyffredinol i ardal Stryd Uchaf;
Creu man troi i foduron yng Ngharreg y Gath;
Creu manau parcio ar lain o dir diffaith yng nghefn rhifau 1-19 Bro Rhiwen;
Gwelliannau i'r ffordd o'r pentref i gyffordd y B4366;
Tai i bobl hŷn;
Tawelyddion traffig, ffordd Carfan.

Rwyf wir yn gobeithio y bydd

swyddogion y Cyngor yn gallu pecynnu cynllun o rai, ac os yn bosib, y cyfan o'r gwelliannau uchod yn y dyfodol agos.

Matter arall sy'n achosi cryn bryder oddi fewn i'r ardal yn gyffredinol yw'r cwestiwn o sut mae tai'r cyngor yn cael eu gosod. Ar hyn o bryd, system o bwyntiau sy'n cael ei weithredu. Dyma system sy'n hollol annheg gan nad yw yn rhoi digon o bwyslais ar gartrefu rhai sydd un ai'n enedigol neu â chysylltiad teuluol oddi fewn y gymuned. Byddaf i ac eraill yn ceisio'n gorau i ddod a mwy o hyblygrwydd i'r system yn y misoedd nesaf.

Os oes angen trafod unrhyw beth rhowch ganiad ar (01248) 670 666 i Huw Price Hughes,

Cynghorydd Plaid Cymru
Dros Wardiau Bethel, Seion
a Rhiwlas.



www.s4c.co.uk/taithhaf

WYT TI'N BAROD?



Miri Myrddin

Parti Ponty

Eisteddfod Gydwladol Llangollen

Sesiwn Fawr Dolgellau

Parc Gwledig Penbre

Gŵyl Gaernarfon

Gŵyl y Faenol

Carnifal Aberaeron

Gŵyl Cefni

22 Mehefin

6 Gorffennaf

9-13 Gorffennaf

20 Gorffennaf

28 Gorffennaf

2 Awst

24 Awst

26 Awst

31 Awst

S4C

BETHEL

Geraint Ellis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

DIOLCH. Dymuna Gareth, Manon, Gethin a Guto ddiolch am y croeso a dderbyniodd Gwenllian ar achlysur ei geni ar 20 Mai. Mae Taid a Nain yn ymuno yn y diolch.

DIOLCH. Dymuna Lynn Roberts, Darwin, 12 Tan y Buarth ddiolch o galon i ffrindiau, cymdogion a theulu am bob dymuniad da a'r rhoddion lu a gafodd ar achlysur ei dyweddiad hi a Rhys.

MERCHED Y WAWR. Nos Fercher, 12 Mehefin, i derfynu gweithgareddau'r flwyddyn, aeth y gangen ar ymweliad â charchar Biwmares ac am bryd i Garreg Brân, Llanfairpwll. Gwroem ein tywys o gwmpas y carchar gan Mr Gron Jones a adroddodd dipyn o hanes trist a chreulon yr adeilad. Diolchwyd iddo gan Mair Read, y Llywydd. Yna aethom yn ein blaenau i Garreg Brân a threulio orlog ddifyr yn sgwrsio a mwynhau pryd blasus.

Llongyfarchwyd Rita Williams ar ddod yn nain i Gwenllian a dymunwyd yn dda i Manon a'r teulu. Hafyd llongyfarchwyd y grŵp offerynnol dan 12 oed ar ennill yr ail wobwr yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Caerdydd. Dymunwyd yn dda i bawb sy'n eistedd arholiadau a dymunwyd gwellhad buan i fam Eirlys Williams ar ôl ei llawdriniaeth. Syfrdanwyd pawb o glywad am ddamwain Iwan, mab Siân ac Arfon Hughes a dymunwyd gwellhad llwyr iddo ac anfonwyd cofion at y teulu.

Diolchwyd i bawb fu'n gasglu o dŷ i dŷ er budd y Ymchwil y Galon. Casglwyd £385.85. Diolchodd Mair Read i'r Trysorydd a'r Ysgrifennydd am eu gwaith trefnus a di-ffino drwy gydol y flwyddyn ac i aelodau o'r pwyllgor am eu cefnogaeth. Dymunodd yn dda i Bet Owen a phwyllgor y flwyddyn nesaf.

Diolchodd Bet Owen i Mair, Mary a Rhian ac aelodau o'r pwyllgor am flwyddyn ddifyr ac amrywiol ac i Carreg Brân am bryd ardderchog.

Enillwyd y raffl, sef rhodd gan y Cynghorydd Huw Hughes, gan Alys Jones. Atgoffwyd pawb fod Rhanbarth Arfon wedi trefnu noson o Arddangosfa a Blasu yng

nghwmni Mel Thomas o 'Hybu Cig Oen ac Eidion Cymru Cyf' yng Ngwesty'r Celt, Caernarfon nos Wener, 5 Gorffennaf a bod tocynnau ar gael gan Rhian.

EISTEDDFOD Y PENTREF. Mae trefniadau ar gyfer yr Eisteddfod eleni bellach ar y gweill a bydd y testunau ar gael yn y siopau lleol yn ystod mis Awst a bydd pob plentyn yn erbyn copi yn yr ysgol ddechrau Medi.

Dylai unrhyw un sydd â diddordeb i ddysgu partïon cerdd neu lefaru gysylltu â Manon Gwynedd, Llys Myfyr ac os oes ganddoch ddiddordeb mewn hyfforddi dawnio, dylech gysylltu â Siân Harris. Dylai unrhyw un sy'n dymuno cyflwyno tlws neu roi gwobr ariannol gysylltu â Rita Williams neu Manon Gwynedd.

Cofiwch am y dyddiadau: Noson Dawnsio Disgo - nos Fawrth, 29 Hydref;

Noson Celf a Chrefft - Nos Wener, 1 Tachwedd;

Yr Eisteddfod - dydd Sadwrn, 2 Tachwedd.

TRIP YSGOL SUL Y CYSEGR. Y trefniadau gwreiddiol ar gyfer y trip eleni oedd mynd i Gullivers World yn Warrington ar ddydd Sadwrn, 6 Gorffennaf ond, gan fod cymaint o blant yr Ysgol Sul yn mynd gyda changen yr Urdd i Glanllyn, mae'r trefniadau wedi eu newid. Felly, ar 13 Gorffennaf y bydd y trip.

Codir tâl o £3 i blant yr Ysgol Sul a £10.50 i oedolion am y bws a mynediad i Gullivers World. Dylid rhoi enwau i un o athrawon yr Ysgol Sul cyn 1 Gorffennaf.

ADRAN YR URDD.

Llongyfarchiadau mawr i aelodau'r côr, y côr cerdd dant, y grŵp offerynnol a Lowri a fu'n cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerdydd yn ystod yr hanner tymor. Llongyfarchiadau arbennig i'r grŵp offerynnol 'Anhygoel' am ddod yn ail teilwng iawn ar y llwyfan. Da iawn chi.

YR YSGOL. Pleser mawr yw cael croesawu Mr Dylan Parry yn ddirprwy newydd i Ysgol Bethel. Dechreuodd Mr Parry ar ei ddyletswyddau ar ôl y gwyliau a braf yw ei weld wedi ymgartrefu mor sydyn.

Buom yn lwcus iawn dydd

Mercher, 20 Mehefin o gael tywydd braf i gynnal mabolgampau'r ysgol. Gadnant oedd y tŷ a enillodd y mwyaf o farciau, Garth yn ail ac lolen yn drydydd. Cyflwynwyd y tlws i gapteiniaid y tŷ, sef Iwan Jones a Marged Rhys. Cyflwynwyd cwpan i Hanna Gwyn ac Aled Griffiths, y ddau a gafodd fwyaf o farciau yn ystod y dydd.

Edrychai genethod y tîm pêl-rwyd yn smart iawn yn ystod twrnament yr Eco nos Fawrth diwethaf yn eu gwisgoedd newydd a noddwyd gan Mr Gwyn Williams o Gwmni Da. Dymuna'r ysgol ddiolch yn fawr iawn iddo am ei haelioni.

SEFYDLIAD PRYDEINIG Y GALON. Fel canlyniad i'r casgliad o dŷ i dŷ yn ddiweddar, casglwyd y swm o £318.83 ym Methel gan aelodau o Ferched y Wawr, sef: Mair Read, Nora Parry, Sheila

Roberts, Rhian Hughes, Nan Rowlands, Glenys Griffith, Delyth Williams, Alys Jones, Mary Evans, Liz Watkin, ac hefyd Maldwyn Hughes. Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i bawb am bob cefnogaeth.

RHANBARTH ARFON O FERCHED Y WAWR.

Cynhelir noson o arddangosfa a blasu cig oen ac eidion Cymru gyda Mel Thomas, Pwllheli yng Ngwesty'r Celt, Caernarfon nos Wener, 5 Gorffennaf am 7 o'r gloch.

Tocynnau yn £5 (sy'n cynnwys pwddin o Siwgrwr a Sbeis, Llanrwst) ar gael gan ysgrifenyddion canghennau lleol Merched y Wawr neu drwy ffonio (01248) 670601. Rhaid archebu tocyn cyn 29 Mehefin.

EMYR JONES

**PLYMAR A
PHEIRIANNYDD
GWRESOGI**



Cynnal boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau

44 Glanffynnon, Llanrug
CAERNARFON 673513
Ffôn Symudol: 07774 496616

Gwynedd Hotel & Restaurant

Llanberis 870203

Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau, bedydd, pen-blwydd a phob achlysur arbennig arall. Gallwn drefnu adloniant - disgo a.y.y.b. Bwrdd Pwll ar gael Bwydlen Bar a Restaurant Trwydded lawn tŷ tafarn.



Ysgol Addysg

A ydych chi wedi ystyried

Dysgu fel Gyrfa?

- Mae Ysgol Addysg, Prifysgol Cymru, Bangor yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau hyfforddi athrawon wedi eu cynllunio i weddu **i chi**.
- Mac galw am athrawon newydd ledled y wlad, yn arbennig rhai a all ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg; mae rhagolygon swyddi yn dda iawn.
- Mae grantiau hyfforddi o hyd at **£10,000** ar gael ar gyfer cyrsiau uwch-radd yn ogystal ag addysged o **£1200** ar gyfer rhai sy'n hyfforddi i ddysgu pynciau uwchradd trwy gyfrwng y Gymraeg.

Croesewir ceisiadau gan rai sy'n gadael yr ysgol, graddedigion ac ymgeiswyr hŷn.

Cysylltwch â Mrs Beryl Hughes, 01248 382933

E-bost: eds035@bangor.ac.uk

<http://www.bangor.ac.uk>



Ysgol Addysg

Cwrs Newydd

BA Anrhydedd mewn

Astudiaethau Plentynod

- Yn cychwyn mis Medi 2002, cwrs newydd i ddatblygu dealltwriaeth gadarn o blant a chyfnod plentynod.

Sail da i yrfa broffesiynol gyda phlant.

Cysylltwch â Mrs Helen Williams, 01248 383081

E-bost: cds008@bangor.ac.uk

GORSAF BETROL



BERAN

DEINIOLEN

Ffôn: (01286) 871521

Ar agor 7 a.m. - 9 p.m. bob diwrnod

**Petrol • Diesel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd • Wyau
Nwyddau Groser • Melysion**

TIGEDI LÔTERI AR WERTH YMA!

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

LLONGYFARCHIADAU i Dafydd a Vera Price. Tan-y-Bryn ar enedigaeth eu ŵyr, Leo Glyn, mab i Gareth a Lucy a brawd bach i Louise.

DIOLCH. Dymuna Gareth a Lucy ddiolch o galon i'w teulu a'u ffrindiau am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar enedigaeth eu mab, Leo Glyn.

LLONGYFARCHIADAU i Dr. Cassie Thomas, Min-y-Nant ar ennill gradd Doethuriaeth mewn Cerddoriaeth.

CYFEILLION Y CWM. Cynhelir Cyngerdd 'Chwedl a Chân' gan y bad *Pigyn Clust* yng Nghastell Bryn Teg ar 26 Medi am 7.30 o'r gloch.

CAPEL Y TABERNACL.

Trip Dirgel. Dydd Sadwrn, 13 Gorffennaf bydd y Trip Dirgel yn cychwyn am 9 o'r gloch y bore. Enwau i Iris Rowlands neu Vera Price os gwelwch yn dda.

Dyma drefn yr Oedfaon am y ddau fis nesaf:

Gorffennaf

7 Parch Gwynfor Williams am 4.00;

14 Mrs Grace Alwena Williams am 5.30;

21 Ni fydd Gwasanaeth;

28 Ni fydd Gwasanaeth.

Awst

4 Parch Gwynfor Williams am 4.00;

11 Ni fydd Gwasanaeth;

18 Mr Hugh Jones am 4.00;

25 Mr J.O. Roberts am 4.00.

YSGOL CWM-Y-GLO

Ddiwedd y tymor hwn fe fyddwn yn ffarwelio â Mrs Rita Williams o Adran y Babanod. Bu Mrs Williams yn athrawes werthfawr ac ymroddgar iawn am dair blynedd ar ddeg a'r plant ar hyd y blynyddoedd wedi meddwl y byd ohoni. Bydd yn rhyfedd iawn yma hebddi ym mis Medi ond yr ydym am ddymuno ymdeoliad hir a hapus iawn iddi. Diolch o galon iddi am ei holl wasanaeth i Ysgol Cwm y Glo.

Bu Susie Radnor o Ysgol Brynrefail ar wythnos o brofiad gwaith yn y gegin gyda Anti Janet. Gobeithio ei bod wedi mwynhau yr ochr ymarferol o'i chwrw arlwy.

Mae Cymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol wedi trefnu nifer

o weithgareddau ers y Nadolig a charwn ddiolch yma i Mrs Avril Jones, trysorydd y gymdeithas, ac sydd hefyd yn gweithio i Abbey National, am drefnu fod yr ysgol yn derbyn ganddynt bunt am bob punt a wneir yn y nosweithiau hyn. Cyflwynwyd bron i £2,000 i goffrau'r ysgol drwy'r cynllun hwn ac rydym yn gwerthfawrogi ymroddiad Mrs Jones a haelioni'r gymdeithas adeiladu.

Mis diwethaf cafodd plant Bl. 1 i Bl. 6 ddiwrnod arbennig iawn. Cafwyd trip i fyny'r Wyddfa ar y trêrn. Trefnwyd hyn gan Mrs Orritt ar achlysur ymdeoliad Mr Orritt, a fu'n gweithio ar y lein am flynyddoedd lawer.

Gwerthfawrogwn yn fawr garedigrwyd Cwmni Rheilffordd yr Wyddfa a Staff Gaffi'r Copa am baratoi lluniaeth i ni. Roedd yn ddiwrnod bythgofiadwy.

Llongyfarchiadau i Karon Williams am gynrychioli'r ysgol a Rhanbarth Eryri yn yr Unawd Piano dan 12 oed yn Eisteddfod yr Urdd yng Nghaerdydd. Ni ddaeth llwyddiant y tro hwn ond llongyfarchiadau iddi am gyflwyno perfformiad ardderchog mewn cystadleuaeth o safon gwirioneddol uchel.

Ddechrau Gorffennaf bydd unarddeg o blant Bl. 5 a 6 yn treulio penwythnos yng Nglanllyn. Diolch i Mrs Jen Roberts am ofalu amdanynt. Eleni mae un deg pedwar o blant yn gadael yr ysgol ac yn dechrau yn Ysgol Brynrefail ym mis Medi. Dymunwn y gorau i Delyth, Cheryl, Elin, Chelsey, Nicola, Geri, Karon, Alan, Huw, Liam, James, Harry, Leon a Jason. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yno a diolch i chwi am eich cyfraniadau i fywyd Ysgol Cwm y Glo.

Bydd prysyrdeb mawr o nawr tan ddiwedd y tymor - triplau'r haf i Gelli Gyffwrdd, SŵCaer a gwaith maes yn Ninas Dinlle. Bydd plant Bl. 6 yn cael eu hail ymweliad ag Ysgol Brynrefail. Byddwn yn rhoi cyfle i'r plantos bach fydd yn cychwyn yn yr ysgol ym mis Medi dreulio bore gyda Mrs Roberts a Miss Smith yn y Dosbarth Meithrin.

Cynhelir Mabolgampau'r Ysgol

Mary Vaughan Jones 'Miss Parry, Biol' Ysgol Brynrefail 1940-1970

Er mor ardderchog oedd tēyrnged Gwynn Davies y mis siwethaf, efallai yr hoffech gynnwys hwn y tro yma am 'M.V. Jones, yr athrawes'.

Bu cyfraniad gwerthfawr Mrs Mary Vaughan Jones i lwyddiant academiaidd a diwylliannol yr ysgol yn amlwg i holl ddisgyblion y cyfnod fu ddigon ffodus i ddod o dan ei dylanwad. Gwyddai pawb yn yr ardal am ei gallu a'i dysgu trylwyr, am ei charedigrwyd a'i henw da ac, yn bennaf oll, am ei dawn naturiol i agosáu at blant o bob cefndir a gallu.

Bu'r labordy'n feithrinfa, nid yn unig i feddygon, athrawon, ffermwyr a naturiaethwyr ond hefyd i unrhyw un oedd â diddordeb mewn adar, planhigion a bywyd gwyllt. Yn wir, gallai synhwyro'r diddordeb yma mewn plentyn, ac yna ei fwydo i'r cithaf. Byddai mor glên hefo ni, a mawr ein braint fyddai cyd gerdded â hi i waith maes ger Llyn Prysgol neu i chwarae hoci i Barc Bailey.

Wedi blynyddoedd o deithio o Blas Glanrafon dros Bencefn i Frynrefail cafodd bleser mawr yn y labordy newydd yn 1955 yn yr ysgol yn Llanrug. Digon o le i arddangos y calonnau a'r llygaid wedi'i piclo, y prydaf pric yn magu wrth y cannoedd, y 'dogfish' drewllyd ar gyfer llawdriniaethau'r chweched

dosbarth. Roedd ei gwersi mor ddiddorol! Doedd dirgelion Mendel a D.N.A. ddim mor anodd wedi'r cyfan. A phwy ond Mary Vaughan Jones fyddai'n cael gwirfoddolwr o'r pumed dosbarth i hongian â'i ben i lawr yn y lab, a'i fwydo efo siocled, i wrthbrofi bod angen grym disgyrchiant yn y system dreulio!

Feiddiai neb fod yn hwyr i'w gwersi ond byddai llawer yn loetran ar ei diwedd hefo hanes buwch yn dod a llo, neu rhyw aderyn prin yn yr ardal. Y cerydd llymaf glywais i ganddi erioed oedd 'Go drapia chi'; doedd byth angen mwy.

I'r rhai oedd yn treulio'r wers olaf ar bnawn Gwener yn y labordy byddai gwledd wythnosol, sef gwagio pocedi'r ofarôl cyn mynd â hi adref i'w golchi. Yn gawod o drugareddau ar y fainc deuai blodau wedi gwywo, concyrs, sialc lliw wedi malu'n bowdwr a phryfyn genwair yn dal yn fyw ers y wers dydd Mawrth. Cofiaf unwaith, yng nghanol y 'nialwch, weld y geiriau 'I Love Miss Biol' o fewn llun calon ar bwt o bapur. Biti ei daflu, a chymaint ohonom yn teimlo run fath.

Rhiannon Roberts, Caeathro

ar gae'r pentref bore Mercher, 10 Gorffennaf. Bydd nosweithiau agored i rieni a threfnwyd turnament Criced i ysgolion y dalgylch ar 3 Gorffennaf.

I gloi'r flwyddyn, cynhelir gwasanaeth arbennig fore lau, 18 Gorffennaf dan ofal plant Bl. 6 pryd y gwahoddir eu rhieni i ymuno gyda ni. Yna gyda'r nos lau

honno, bydd Disgo ffarwelio a threfnir hwnnw gan rieni plant Blwyddyn 6.

Carwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch yn ddiffuant iawn i bawb yn y gymdogaeth sydd wedi cefnogi yr amrywiol weithgareddau a gynhaliwyd gennym yn ystod y flwyddyn.

G. EVANS

ARBENIGWYR TRWSIO
CYRFF CEIR



Uned 4, Stad Ddiwydiannol Brynafon, Llanrug

(01286) 678030

Alwyn a Sarah Jones

BLODAU

RACCA
PENISARWAUN

Blodau ar gyfer pob achlysur

Dewis da o Lysiau Fferm

Wyau *Free Range*

Ar agor saith diwrnod

870605



Danfôn 7 diwrnod
yr wythnos
drwy'r fro

DAWES

TREK

ENERGY CYCLES

60 Stryd Fawr
Llanberis

Beics a Barcudau

Partiau a Thrwsio Beics

Beics Ffordd a Mynydd,

BMX, Triathlon

Barcudau Hwyl, Chwaraeon

a Delta Powerkites.

Dewis Da

07980 742584 • 01286 871892 sales@energycycles.com

Airborne

OZONE



Oriau Agor

Gaeaf: 5 diwrnod yr wythnos:

lau, Gwener, Sadwrn, Sul, Llun

Haf: 7 diwrnod yr wythnos ar

agor tan 6 pm

DEINIOLLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: (01286) 871259

DYMUNA Dawn a David, rhieni Rhys Parry, 14 Tai Marian, Deiniolen a'r holl deulu ddiolch i bobl y pentref a'r pentrefi cyfagos am eu cefnogaeth yn ystod gwaeledd Rhys, tra bu yn Ysbyty Gwynedd ac yn Alder Hey, Lerpwl, ble mae ar hyn o bryd. Mae'r cyfan yn gymorth mawr iddynt yn eu pryder. Diolch yn fawr iawn i bawb.

CYMORTH CRISTNOGOL

Wythnos Cymorth Cristnogol: Dymuna pwyllgor y Cyngor Eglwys lleol ddiolch i bawb a gyfrannodd i'r apel eleni, ac i'r casglyddion a fu o gwmpas yr ardal. Casglwyd y swm o £465.

MERCHED Y WAWR. Cynhaliwyd cyfarfod nos Lun, 20 Mai yn Ysgol Gwaun Gynfi. Y gŵr gwadd oedd y Parch Geraint Hughes, Caernarfon ac estynnwyd croeso cynnes iddo gan Buddug Jones. Daeth a'r darlun 'Salem' gan Gurnow Vosper gydag ef a chawsom hanes cefndir y darlun ganddo. Soniodd am Siân Owen, Ty'n y Fawngog a'r cymeriadau eraill a wellir yn y darlun. Diolchwyd yn gynnes iddo.

Yn ystod y cyfarfod cyfeiriwyd at y golled a gawsom ym marwolaeth un o'r aelodau ffyddlonaf, sef Mrs Jane Jones, Rhydfadog. Mae ei lle yn wag iawn. Anfonwyd cydymdeimlad a chofion at ei theulu, hefyd at deulu'r ddiweddar Mrs Beti Williams, Rhydfadog a fu yn aelod am rai blynyddoedd.

CYMDEITHAS UNDEBOL Y CHWIORYDD. Aeth y chworydd ar eu gwibdaith flynyddol ddydd Mercher, 29 Mai. Wedi cinio blasus ym mwyty'r Llew yn Nhudweiliog, aethom ymlaen i Uwchmynydd, lle cawsom olygfa fenidgedig o Ynys Enlli yn syth o'n blaenau ac o'r wlad o'n cwmpas am lawer o filliroedd.

Cawsom wasanaeth byr wedyn yng nghapel Uwchmynydd o dan arweiniad y gweinidog, y Parch Olwen Williams a chroeso cynnes gan rai o'r aelodau. Yna buom yn ymweld ag Eglwys hynafol Aberdaron, lle cafwyd croeso gan y Ficer, Y Parch Evelyn Davies.

Mwynhawyd y diwrnod yn fawr gan bawb. Bydd y Gymdeithas yn cyfarfod eto yn yr hydref, ac estynnir croeso cynnes i bawb.

DIOLCH. Mae Mair Morris, 23 Rhydfadog yn dymuno diolch o galon i ffrindiau a chymdogion am yr holl anrhegion a dymuniadau da a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn 90 oed.

DYMUNA Mrs Mary Catherine Jones, Tan y Caeau, Clwt y Bont ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, anrhegion, blodau, galwadau ffôn ac arian a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 80 yn ddiweddar.

LIBANUS, CLWT-Y-BONT

Cynhelir Cyrrdau Pregethu dydd Sul, 14 Gorffennaf dan ofal y Parch Huw John Hughes, Porthaethwy. Oedfaon am 2.00 a 5.30 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

DYMUNA William Orwig a Brenda ddiolch o waelod calon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt drwy gardiau, llythyrau a galwadau ffôn, neu yn wir, drwy sgwrs ar y lôn pan gollodd William Orwig ei effail, Robert Ogwen Williams (Bobbie Twins) ar 8 Mehefin eleni.

Ar ôl cystudd blin a hir rhoddwyd Bobbie i orffwys ym Mynwent Eglwys Llandinorwig, lle y daeth nifer lu o'i deulu, ffrindiau a chymdogion o bell ac agos ynghyd.

Diolch arbennig i Seindorf Arian Deiniolen am eu gwasanaeth yn yr eglwys ac hefyd ar lan y bedd. Bu Bobbie yn aelod ffyddlon o'r band am bron i hanner can mlynedd.

Derbyniwyd yn ddiolchgar swm o arian a fydd yn cael ei roi tuag at wardiau Tryfan a Moelwyn, Ysbyty Gwynedd ac hefyd Meddygfa Llanberis. Diolch.

YSGOL FEITHRIN. Mae'r gwaith o adnewyddu yr Ysgol Feithrin yn awr wedi ei gwblhau a'r adeilad mewn cyflwr arbennig o dda erbyn hyn. Hoffwn ddiolch yn fawr i bawb am eu cymorth dros y cyfnod y bu'r gwelliannau yn mynd ymlaen ac i Gapel Ebeneser ac Ysgol Gwaun Gynfi am gael defnyddio'r adeiladau i storio dodrefn.

Bu plant yr Ysgol Feithrin a'u rhieni am drip llwyddiannus i Barc Henblas, Ynys Môn ym mis Mehefin.

Cynhelir Noson Disgo yn iard yr Ysgol Feithrin ar nos Fercher, 10 Gorffennaf i blant yr Ysgol Feithrin



LLWYDDIANT. Llongyfarchiadau i Elfed Morgan Morris, Llechwedd. Deiniolen ar ennill yr unawd 19-25 oed yn Eisteddfod Môn yn ddiweddar. Enillodd y gystadleuaeth Unawdydd Ifanc 2002 'Hufen o Gân' yno hefyd a fydd yn rhoi'r hawl i Elfed gystadlu

ar y gystadleuaeth yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhyddewi fis Awst. Ar ben hyn oll, oherwydd ei lwyddiant yn yr Eisteddfod, enillodd ysgoloriaeth arbennig gwerth £500 tuag at hyfforddiant pellach gan Lys yr Eisteddfod.

ac Ysgol Gwaun Gynfi am 6 o'r gloch. Mynediad £1 yn cynnwys diod a chreision. Bydd stondin cŵn poeth, melysion a phaentio wyneb a raffl yn cael ei dynnu ar y noson.

Cofiw'n at Rhys Parry sydd wedi bod i ffwrdd yn sâl o'r Ysgol Feithrin ers cyfnod bellach ac anfonwn ein dymuniadau gorau iddo am wellhad buan.

Bydd yr Ysgol Feithrin yn cau ar ddydd Iau, 18 Gorffennaf ac mae Lynda a Siân yn dymuno yn dda i'r plant fydd yn mynd i Ysgol Gwaun Gynfi y tymor nesaf a diolch i bawb am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn ddiweddar.

CYLCH TI A FI. Mae angen Arweinydd newydd i'r Cylch Ti a Fi (Mother and Toddler Group) a gynhelir yn yr Ysgol Feithrin bob dydd Llun o 1.30 - 3.00 o'r gloch. Cyflog i'w drafod. Os â diddordeb cysylltwch â Glenda Jones ar (01286) 870836.

SEFYDLIAD PRYDEINIG Y GALON. Fel canlyniad i'r casgliad o dŷ i dŷ yn ddiweddar, casglwyd y swm o £278.30 yn Neiniolen gan A. K. Williams, Jane Thorman, Carys Thomas, Lona Lewis, Eirian Jones, Helen Jones, Margaret Williams, Betty Williams. Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i bawb am bob cefnogaeth.


R.M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR

PRISIAU RHESYMOL

TAWELFA, PENISARWAUN

Ffôn: (01286) 870846



GWYNANT PIERCE

Cynyrchion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG

Ffôn: (01286) 650349
(0509) 099901

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnio
MENAI SEWING
MACHINE CENTRE

21 Stryd Fawr
PORTHAETHWY

Ffôn: (01248) 714043

neu Caernarfon

Ffôn: (01286) 674520

Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

SPAR

Y STORFA LLANRUG

(Richard a Meirwen
Williams)

Ffôn: (01286) 672790

Ar agor bob dydd
o'r wythnos at eich
gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am
ddanfôn archeb i'ch cartref
yn ardal Llanrug

Mae'n rhaid i mi siarad
hefo rhywun



Y SAMARIAID
Bangor
(01248) 354646

Y WAUNFAWR

-mwy o atgofion J. Rhyd Humphreys
am y cyfnod cyn ac ar ôl yr Ail Ryfel Byd

Gwleidyddiaeth

Doedd ond un blaid wleidyddol yn y Waun, fel ymron pob pentref arall yn y cyfnod hwnnw - sef plaid Lloyd George. Roedd rhai o'r hcn bobl bron yn ei hanner addoli, ac yn sicr heb wybod cymaint o ddihiryn ydoedd. Roedd amryw yn sôn am 'bensiw Lloyd George' gyda deigr yn eu llygaid. Swynwyd y sawl â'i clywodd yn annerch y dorf yn y Pafiliwn yng Nghaernarfon. Ond daeth diwedd ar y Rhyddfrydwyr gyda diwedd yr Ail Ryfel Byd a daeth y blaid Lafur i rym. Aeth pentref y Waun yn goch dros nos bron a byddai posteri llafur ar bron bob polyn teligraph ar amser etholiad a gwisgai pobl rubannau coch yn eu lapeli ac yn eu hetiau. Doedd dim mwy na hanner dwsin o gefnogwyr y blaid bach, neu Plaid Cymru, ac roedd un Comiwnydd yn byw yn y Grocslon.

Meddyginiaeth

Ni elwid y meddyg ond pan fyddai rhywun yn bur wael, er fod Dr. Miles yn galw o'i wirfodd ddwywaith a theirgwaith y diwrnod os oedd angen. Roedd meddyginiaeth cartref i wella llawer salwch. Y wermod lwyd felltgedig at rwymedd; triagl ar bapur llwyd at bendynod. Y Vitrol a Senna Pods ar gyfer bron popeth. Ac roedd 'dyn y ddafad wyllt' ym Mhwllheli. Ond doedd fawr o iachad at diciae, llwch y chwarc neu'r pla gwyn...

Hwn oedd y pentref tlysaf yn y byd, meddai George Burrows ond bu rhaid i amryw adael y Waun. Rhai i goleg ac eraill i Gaernarfon. Un neu ddau i Gaerdydd ac eraill i Lerpwl. Rhai i Lundain ac eraill i Awstralia. Rhai i Ogledd America ac un neu ddau i Hong Kong. Chwalfa'n wir!

Troseddwy

Tua'r amser yma dacth heddwas newydd o'r cnw Clayton, neu Clayton bach, i'r Waun, nad oedd yn sefyll dim lol gan neb. Pan gerddai Clayton yn urddasol

drwy'r pentref teimlai pawb eu bod yn euog o ryw drosedd neu'i gilydd, er iddo gael y llysenw 'Plisman Plant'. Yn sicr roedd dipyn o'i ofn ar bawb. Arferai gerdded i Rhyd Ddu i gyfarfod heddwas Beddgelert, cyn cychwyn yn ôl i'r Waun. Nid wy'n credu iddo ddal unrhyw droseddwr o bwys a hynny, mac'n dbyg, am nad oedd ond pobl barchus yn byw yn y Waun. Bu iddo dreulio oriau, fodd bynnag, ar Allt Coed Mawr ym mherfeddion nos yn ceisio dal rhyw ddihiryn a oedd yn cnocio ar ddrysau.

Roedd gan rhyw hcn wraig a elwid yn 'nain' gan bawb, wydraid o frandi wrth law, gan fod ei nerfau mor ddrwg, rhag ofn i'r cnociwr gyrracdd. Ac, yn sicr ddigon, galwodd y dyn (a chymraai pawb yn ganiatâol mai dyn ydoedd) rhyw noson. Estynnodd nain ei llaw am y brandi mewn dychryn a braw a thaflodd y gwydr drosodd. Adroddwyd yr hanes yn fanwl ac yn effeithiol wrth Clayton y bore wedyn a dyblodd ei ymdrechion i'w ddal. Ac, er fod pawb yn gwybod, neu'n amau, pwy ydoedd ni chafwyd llwyddiant i ddod o hyd iddo.

Er hynny cafodd yr hen Glayton lwyddiant ysgubol unwaith. Roedd gweithwyr yn tario'r ffordd fawr ac wedi gadael amryw o gasgenni tar ger Dôl Erddi crbyn y diwrnod wedyn. Roedd y demtasiwn yn ormod i Ieuan T.C. ac, yng nghanol y nos, tynodd y cyres o rai o'r casgenni a gadael i'r tar lifo i lawr Allt y Bont. Er nad oedd ond ifanc iawn fe'i hanfonwyd i'r Borstal am rai misoedd ac nid wy'n credu iddo droseddu byth wedyn.

Daeth geirfa anghyfarwydd i enau pobl yn y cyfnod yma. Clywais un hen wraig yn dweud wrth y llall fod rhywun yn cael ei 'ddimobio'. 'Peidiwch a dweud,' meddai'r llall mewn llais crynedig. 'Bobl bach, ac ydi o yn cael ei "ddimobio".'

SIOP GIG ERYRI

Margaret Wyn Roberts

Diddorol iawn oedd darllen am hanes Becws Eryri yn yr Eco. Bu fy nhad, Ioan Roberts, yn gigydd yno o 1948-1972, a Siop Ioan oedd llawer yn ei galw'r adeg honno, er mai Siop Gig Eryri oedd hi'n swyddogol. Dechreuodd ef a'i frawd, Tom, werthu cig yn y dauddegau yn ardal Fachwen, ac yna mynd gyda char a chefyll i Nant Peris. Yn fferm Y Fron fe gâi 'nhad fenyn fresh ardderchog. Hoffwn gael hanes Sarell Jones yn hela llwynogod cfo dacargwn; hanes Anti Flo yn canu'r delyn a storïau am deulu'r Clossiaid, oedd yn perthyn i mam.

Roedd Siop Eryri wedi ei gwneud yn arbennig i fod yn siop gig, gan fod rheiliau haearn yn mynd o gwmpas dwy wal. Rhoddwyd y chwarteri o gig cidion trwm ar fachau mawr wrth y drws a hawdd wedyn oedd eu llithro at yr oergell fawr oedd yn y gornel. Rhaid oedd hongian y cig am ddyddiau cyn ei dorri er mwyn iddo fod yn frau. Byddai Mrs Fiddler, Dolbadarn eisiau i'r cig hongian am fwy o amser, a chanddi hi roedd y stêc orau yn y fro.

Pob gyda'r nos, byddai 'nhad yn sgwrio'r byrddau pren cfo sebon carbolic a brwsh weiren (doedd dim sôn am salmonella y dyddiau hynny). Ar ôl 'sgubo'r

llawr teils coch, taenwyd llwch llif arno rhag ofn i'r cwsmeriaid lithro. Ar un adeg roedd fy nhad a Gwilym Hughes, Deiniolen, yn gwneud selsig blasus ond ni werthai ham gan fod Wil Jones yn gwneud hynny dros y ffordd, ac roedd dealltwriaeth dda rhyngddynt. Prynai Mrs Vyrnwy Jones, gwraig y meddyg, gefndelyn neu *sweetbread* yn aml, a byddai pennau wyn yn cael eu gwerthu am ychydig geiniogau i wneud broth.

Yn yr iard tu cefn i'r siop roedd ci Benson a Pat Roberts - St. Bernard anferth ond ffeind o'r enw Prince. Hoffwn fynd ato i'w fwytho a rhoi esgyrn iddo ar ôl dod o'r ysgol. Dro arall, adeg Ffair Nant, byddai fy ffrind, Anne Parry a minnau yn mynd i'r cae sioe oedd y tu ôl i'r siop.

Clywais mai Robert Jones, mab Catrin Jane, Ty'n Pwll oedd y cigydd o flaen fy nhad. Ei frawd, Prys, oedd yn y siop gig arall yn Llanberis yr adeg hynny.

Diolch am yr hanes difyr ddacth â'r atgofion yma'n ôl i mi. Wrth weld llun Netta Jones, Beehive, dacth dŵr i'm dannedd wrth gofio ei theisennau blasus, a oedd wedi eu haddurno mor gelfydd. Pob dymuniad da i Eifion a Gwyneth am eu hymddeoliad a phob lwc i berchnogion newydd Siop Eryri.

Gwesty Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff

CRONFA COFFA R. H. OWEN

Gwahoddir ccisiadau am grantiau a benthyciadau o'r Gronfa Uchod. Ceir y manylion a'r amodau drwy anfon amlen a stamp gyda chyfeiriad arno i'r Ysgrifennydd:

John H. Hughes

Tan y Clogwyn

Llanberis

Gwynedd LL55 4LF

Ffôn: (01286) 871 562

Y ccisiadau i gyrracdd yr Ysgrifennydd erbyn Awst 31ain, 2002.

Ni ystyrir unrhyw gais a ddaw i law ar ôl y dyddiad cau penodedig.



Harddwch eich cartref gyda

**FFENESTRI
CELTIC** WINDOWS

FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch - 'die'n costio dim i gael pris

HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG



(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)



WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Camera yn ngofal Heulwen Hughes, Argoed. Ffôn: (01286) 650556

CLWB 300. Dyma restr o enillwyr y Clwb am fis Mai:

£40: Mr Peter Greasley, 7 Pant Waun; £25: Mr D.G. Davies, Bryn Teg; £10: Mrs Mary Evans, Tref Eilian.

SEFYDLIAD Y MERCHED. Mr Rol Williams oedd y siaradwr gwadd yn y Sefydliad ym mis Mehefin. Cafwyd sgwrs ddiddorol iawn ganddo am sut y bu i 'Marks & Spencer' gael ei ffurfio. Mae'n amlwg fod Rol wedi edrych i mewn i'r hanes yn drylwyr iawn ac roedd yn agoriad llygaid i lawer ohonom sut y dechreuwyd y busnes llewyrchus yma. Mae miloedd yn siopa ynddynt ond llawer yn gwybod fawr iawn o'r hanes. Diolchwyd iddo gan Mrs Catherine Jones, y Llywydd.

Cyfarfu'r aelodau ac aelodau Sefydliad y Merched Beddgelert am goffi yn 'Blas y Waun' ar 17 Mehefin i drafod y trefniadau ar gyfer y stondin o bethau wedi eu gwneud gartref. Mae'r ddau Sefydliad wedi ymuno i'w threfnu erbyn Ffair yr Haf y Ffederasiwn sydd i'w chynnal yn Saiont Nurseries ar 13 Gorffennaf.

LLONGYFARCHIADAU i Elgan, Tan y Coed am ddod yn gyntaf mewn cystadleuaeth sglefrfyddio yn Wrecsam. Roedd yn cystadlu yn erbyn rhai o Ogledd Cymru o cyn belled â'r Amwythig. Yn y parc sglefrfyddio newydd yn Wrecsam y cynhaliwyd y gystadleuaeth. Trueni dy fod yn gorfod mynd mor bell i gystadlu, ond dal ati Elgan a phob hwyl mewn cystadlaethau yn y dyfodol.

YR URDD. Daeth tymor prysur i aelodau'r Urdd i ben. Criw bychan iawn oedd wedi ymaelodi eleni ond, er hyn, cawsant hwyl a'u difyrru mewn sawl ffordd.

Da iawn chi, hogia'r tîm pêl-droed, sef Dewi, Meurig, Rhydian, Jason a Richie a gystadlodd yn y twrnament gan yr Urdd yn ddiweddar. Buont yn llwyddiannus iawn a mynd cyn belled â'r rownd derfynol ond, yn anffodus, colli'r gêm olaf.

Hwyl fawr i'r rhai sydd am fynd i Langrannog yn ystod gwyliau'r haf. Bydd y tymor yn ail-gychwyn ym mis Hydref.

LLONGYFARCHIADAU.

Dymunwn yn dda i Dr. Derfel Williams, Bryn Beddau ar ei

briodas â Ceri Morris o Gaernarfon.

Yr un yw'r dymuniad i Neil a Judith, Ty'n Twll ar eu priodas hwythau.

Pob dymuniad da am briodas hapus i'r ddau bâr ifanc.

PEN-BLWYDD PRIODAS.

Llongyfarchiadau i Ieuan a Nance Hughes, Wernas, Stad Croesywaun ar ddathlu eu Priodas Ruddem.

LLWYDDIANT CERDDOROL.

Llongyfarchiadau i Nia Griffith, Stad Tŷ Hen ar lwyddo yn yr arholiad Piano, gradd 4 ac i Nia Williams, Plas Bodhyfryd ar lwyddo yn yr un arholiad gyda theilyngdod.

GENEDIGAETH.

Llongyfarchiadau i Talina a David Coles, Gwynant ar enedigaeth mab bychan, Byron, brawd bach i Christian ac Ashley. Wyr bach i Mr a Mrs Bob Legget, sydd newydd ddod i fyw i Arwel, Teras Glynafon, ac i William a Luned Coles, Bro Waun, a gor-ŵyr bach i Mrs B. Coles.

PÊL-DROED. Llongyfarchiadau i Elaine Owen, Glyn Awel sydd yn aelod o dîm pêl-droed merched Bangor, a ddaeth yn bencampwr timau pêl-droed Cymru yn ddiweddar.

Roedd Gwenan Jones, Glyn Ceris yn aelod o'r tîm hefyd, ond erbyn hyn mae hi yn gwneud gwaith gweinyddol iddynt.

CYDYMDEIMLO. Anfonwn ein cydymdwimlad dwysaf at Duncan Brown, Gwelfor yn ei brofedigaeth o golli ei dad.

ADREF O'R YSBYTY. Croeso i Carwyn, mab bychan Rhian a Clive Owen, Stad Tŷ Hen, adref wedi iddo orfod treulio cyfnod yn Ysbyty Alder Hey, Lerpwl ar ôl llosgi ei wyneb bach mewn damwain yn ei gartref.

Anfonwn ein cofion hefyd at Robat, mab Derek ac Eleri, Stad Tŷ Hen sydd yn derbyn triniaeth mewn ysbyty.

Bu Helen, 1 Teras Eilian yn yr ysbyty yn ddiweddar hefyd yn derbyn triniaeth i'w llygaid.

Anfonwn ein cofion at Mrs Idris Jones, sydd heb fod yn dda yn ddiweddar ac at bob un o'r pentref sydd heb fod yn teimlo'n dda.

DIOLCH. Dymuna aelodau y tîm pêl-droed dan saith oed a'u



Cafwyd benthg y llun diddorol yma gan Mr J. O. Harvey, Llangefni. Llun ydyw o ddisgyblion ysgol Gynradd, Waunfawr tua 1930. Y Prifathro oedd Mr D. R. Jones, a'r plant oedd (rhes uchaf - chwith i'r dde): Gwilym, Plas Isaf, Nant Betws; ? John Thomas, Tremarfon, Groeslon Ganol; Emlyn, Gorffwysfa; Beny, Ceunant; ? Gruffudd Tudur, Ceunant; (rhes ganol) Francis; Glyn Vaughn Jones, Salen, Nant Betws; Glyn Thomas, Cwm Bychan, Nant Betws; Owen Wyn Hughes, Gallt Bont; Ifan, Fuchas; Albert Maxwell; Bob Hughes, Nant Betws; (rhes isaf) Meirion Parry, Hafod y Grug; Clifford Pierce; Tom Richards, Nysodd; John Harvey; Ifan, Ty'n Ceunant; Gwilym Hughes, Nant Betws. (Bob Hughes a Gwilym Hughes yn efeilliaid)

hyfforddwyr ddioleoh i Mr a Mrs Lleufer Pritchard, y Ganolfan Garpedi am noddi eu cit pêl-droed newydd.

GWYLIAU HAF. Bydd y rhifyn nesaf o'r Eco yn dod o'r wasg ddechrau Medi. Cyfnod hir o ddau fis, felly a wnewch chi, os gwelwch yn dda, adael nodyn bach i mi os ydych am roi stori neu wybodaeth ynddo.

Dymunwn wyliau haf hapus i bawb. Cymerwch ofal ar y ffordd, blant.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Nos Lun, 10 Mehefin, bu aelodau'r Gymdeithas ar ymweliad ac Eglwys Beuno Sant yng Nghlynnog ac yno cafwyd hanes yr eglwys hynafol gan y Parchedig Ganol Idris Thomas. Talwyd y diolchiadau iddo gan Lywydd y Gymdeithas, Mr Gwilym O. Williams, Fferm Bod Hyfryd. Yn dilyn yr ymweliad â'r eglwys cafwyd pryd o fwyd yn un o'r gwestai lleol ac yno eto talwyd diolchiadau gan y Llywydd, y tro hwn i swyddogion y Gymdeithas am eu gwaith drwy'r tymor ac am gefnogaeth yr aelodau. Etholwyd yr un rhai ar y pwyllgor oddi gerth Mrs Margaret Owen a Rol

Williams, nad oeddynt yn dymuno aros am flwyddyn arall. Etholwyd Mrs Pat Parry fel aelod o'r newydd. Gwahoddir awgrymiadau am eitemau i'r rhaglen y tymor nesaf, fydd yn cychwyn yn yr hydref.

EISTEDDFOD Y PENTREF. Fe fydd yr Eisteddfod yn cael ei chynnal ar 2 Tachwedd yn y Ganolfan. Eisteddfod dan 15 oed yn y prynhawn ac eisteddfod timau gyda'r nos, sef y merched yn erbyn y dynion.

CYDYMDEIMLAWN yn ddwys â Mrs Mary Jones, Llwyn Afon a Mrs Margaret Jones, Arosfa yn eu profedigaeth o golli eu brawd, sef Mr Owi Lewis o Lanberis.

SEFYDLIAD PRYDEINIG Y GALON. Fel canlyniad i'r casgliad o dŷ i dŷ yn ddiweddar, casglwyd y swm o £262.76 yn Waunfawr gan Rhian Evans, Eirian Jones, Ann Clarke, Olwen Owen, Marian Jones a Helena Edwards. Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i bawb am bob cefnogaeth.

Peidiwch gori ar stori. Anfonwch hi i'r ECO

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **GHWI**
Y Gwasanaeth Technegol Gorau i'ch **CAR**. Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych chi yn ei yrru, o Audi i Zastava



GEMINI

Car neu Fan
Petrol neu Diesel
Carb. neu Chwistrellid

bydd ein Gwasanaeth ni yn arbed eich
ac yn ymestyn oes eich car

VSTAD CIBYN

CAERNARFON (01286) 673559



ARVONIA

LLANRUG Ffôn: 01286 675175

GWYLIAU CARTREF A THRAMOR

Cwmni teuluol gydag 20 mlynedd o brofiad o redeg Pecynnau Gwyliau oll-gynhwysol

'ARBET MACHT TRE'

IWAN RHYS

Y Stori fuddugol

ac enillydd Tlws yr Ifanc yn Eisteddfod Llanrug

'Dwi'm 'isho mynd.' Atsciniodd geiriau Christian drwy'r stryd wrth i'r holl deulu gael eu hyrddio i gefn y cerbyd gan y milwyr arfog, roeddant oll mewn cyflwr o sioc gan drio dadansoddi beth oedd yn digwydd, ond yn ddiarwybod iddynt roeddant yn symud tua'r gorllewin.

Eisteddai y pum aelod o deulu'r Kalan ar lawr y cerbyd militaraid, ni allai'r teulu weld dim oherwydd y tywyllwch llethol dim ond cydio'n ei gilydd wrth iddynt gael eu taflu o un ochr i'r llall.

Treuliodd y teulu oriau ar lawr y cerbyd gan bendroni am yr hyn a oedd yn eu disgwyl, roedd eu dyfodol allan o'u dwylo, dim ond ffawd a fyddai'n penderfynu.

Daeth y cerbyd i stop sydyn, gyda'r breiciau yn gwichian, y teiars yn poethi a'r teulu'n cael eu taflu'n chwynn i'r tu blaen. Fe acth peth amser heibio cyn i'r gyrrwr agor y drws a chamu allan, gan ei gau yn glep ar ei ôl. Clywai'r teulu ei sodlau yn taro'r llawr wrth i'r sŵn gynyddu gyda phob cam, dechreuodd calon Alexander guro'n gyflymach wrth iddo glywed y milwr yn agosau, cynyddodd y curiad gyda phob cam tan roedd yn anfarwol a fynta yn chwys laddar, ac yna fe agorwyd y drws.

Yn uniongyrchol roedd swyddogion yr S.S yn disglerio golau yn llygaid y teulu, roedd y boen yn aruthrol ar ôl treulio bron i bedair awr mewn tywyllwch llethol ac roedd bron yn amhosib atal y dagrau rhag llifo, ond roedd rhaid wrth i'r milwyr eu gorfodi allan.

Camodd Alexander allan o'r cerbyd i fyd newydd, i fyd llawn o estroniaid, i fyd yn llawn o gasineb tuag ato fo a'i deulu, fe glywodd rhyw lais cras yn y cefndir yn gweiddi arno ond ni wyddai beth a ddywedai, yna teimlodd boen arteithiol yn

trafeilio i fyny ei goes fel pectai procar poeth yn cael ei ymwithio i fewn, ac yna heb iddo gael amser i feddwl roedd yn gorwedd ar lawr mewn pwll o ddŵr.

'UP! Get UP now!' fe orchuddwyd wyneb Alexander gan boer y milwr yn gweiddi arno, trodd ei wyneb i gyfeiriad y swyddog gan syllu'n syth i'w lygaid. Fe welai dân yn ei lygaid, fe welai gasineb.

Cododd Alexander yn araf o'r llawr, gan drio sychu ychydig ar ei ddillad ar ôl gorfeddian yn y dŵr, yn ystod yr amser hyn ni thynnodd y milwyr eu llygaid oddi ar Alexander, roedd fel eryr yn gwylio ei ysglyfaeth. Cerddodd Alexander yn bwylllog tuag at weddill ei deulu a oedd wedi ymgasglu ger un o gerbydau y trên, roeddant am gael eu cludo i rywle ond i ble a pham? Roedd y cerbyd yn gorlifo o bobl yn barod, ni ddywedent ddim ond roedd y mynegiant ar eu gwynebau yn dwcud cyfrolau.

Cerddodd swyddog yr S.S allan o flaen y teulu, fe oeddodd am eiliad gan edrych i fyw llygad pob un ohonynt.

"You are moving east! You are moving east to start a new life" meddai'r swyddog hefo gwên ar ei wyneb, ac yna mewn eiliad roedd y teulu yn cael eu hanfon i fewn i'r cerbyd. Roedd bron i gant o bobl yn y cerbyd ond doedd prin digon o le i ugain yno, ond hwn fyddai eu cartref am y pedwar diwrnod ncsa.

Fe wnai arogl y cyrff yn pydru i Alexander fod eisiau cyfogi, fe ymdrechai i orchuddio ei wyneb gyda hances er mwyn atal yr arogl ond roedd bron yn amhosib oherwydd y gwres ffaidd. Roedd yr amodau yn y cerbyd yn warthus, bu rhaid i'r teulu gysgu ar y llawr pren, doedd dim toiledau ac roedd y bwyd yn dechrau lleihau gyda phob

munud, felly roedd rhaid ei ddogni'n ofalus.

'Mam ga i fwyd?' doedd dim diwedd i'r gofyn, ond bob tro roedd rhaid i Hansel Kalan ateb yn dyner gyda 'Na, efallai wedyn'. Oherwydd y prinder bwyd a'r gwres anniogdefol roedd cryfder y teulu yn lleihau gyda phob awr, roedd rhai yn teimlo'r straen yn fwy na'i gilydd, un o'r rhain oedd Christian Kalan. Erbyn yr ail ddiwrnod roedd ei holl nerth wedi mynd ac ni allai wneud dim ond gorwedd ar y llawr yn ddi-symud, fe dorrai galon Alexander i weld ei fab mewn cyflwr mor wael a fynta'n methu gwneud dim i'w helpu, dim ond gwylio wrth i'w blentyn brau lithro i ddymdra ddifancoll.

Fe dreuliodd y teulu dri diwrnod llafurus arall yn y cerbyd lle gwelodd Alexander lawer mwy o bobl yn marw o newyn, tri diwrnod hunllefus ond megis cychwyn oedd y boen a'r dioddef.

Daeth y trên i stop araf a dechreuodd calon Alexander guro'n gyflymach, roedd yn poeni ei enaid, poeni ei enaid am yr hyn a oedd yn ei ddisgwyl o a'i deulu y tu allan i'r cerbyd, a oeddant am ddechrau bywyd newydd? Clywodd Alexander yr allwedd yn cael ei roi yn y clo a'i droi yn araf yna fe agorwyd y drws.

'Croeso i gyrchfan gwyliu Auschwitz,' gwaeddodd un o'r swyddogion gan wneud ystum iddynt ddod allan o'r trên, doedd dim dewis ganddynt ond ufuddhau i orchmynion y swyddogion. Camodd Alexander allan o'r cerbyd gan adael corff ei fab yn dawl ar y llawr, rhoddodd gusan ar ei ruddiau gwelw a ffarwelio cyn i'r swyddogion ei hebrwng tuag at y fynedfa.

Edrychodd Alexander o'i gwmpas gan drio rhwystro'r dagrau er mwyn gwneud synnwyr o bopeth ond roedd pobman yn hollol estron iddo, mewn eiliad roeddant yn cael eu harwain i fewn. Uwchlaw y fynedfa roedd arwydd 'Arbet Macht Tre' roedd hyn yn ei wneud yn bryderus.

Erbyn rwan roedd yr holl Iddewon ar y trên wedi ymgynnull tu fewn i Auschwitz, fe aeth ychydig o funudau heibio cyn i unrhyw un ymddangos, ond yna daeth rheolwr Auschwitz i'r golwg.

Roedd o'n ddyn tennau fel pin a gwisgai'n wahanol i'r holl

swyddogion eraill. Fe wisgai iwniform llwyd gyda bathodynau y Natsiaid ar ei freichiau, yn ogystal â hyn roedd yn gwisgo bathodyn arferol yr S.S sef y 'Death head'. Roedd ei wyneb yn gras a'i lygaid yn rhai ffaidd, yna fe roddodd wên wawdlyd wrth edrych ar yr Iddewon gan ddatgelu ei ddannedd budur, fe edrychai fel ci, fel ci newydd gael blas ar waed ac yn ysu am ragor.

'You'll be split into two groups, one which needs to shower and the other which doesn't,' meddai'r swyddog yn dyner. Gwyddai Alexander yn iawn mai celwydd noeth oedd hynna i gyd er mwyn tawelu rhai o'r Iddewon mwyaf pryderus, ond beth wnaeth iddo gorddi tu fewn oedd gweld rhai ohonynt yn gwenu tra'n disgwyl eu marwolaeth.

Cerddodd Alexander yn araf bach hyd nes cyrraedd y swyddog, 'No shower.' Doedd o ddim am gael ei ddifa'n syth ac fe deimlai ryddhad mawr, ond wedyn suddodd ei galon wrth weld gweddill ei deulu yn cael eu rhoi mewn llinell arall. Fe driodd ei orau glas i gael gweddill ei deulu yn yr un rhes ac yntau ond yn ofer wrth i'r S.S ei rwystro.

Disgynnodd i'r llawr. Llifodd y dagrau. Diflanodd ei enaid. Ond roedd gwaith yn galw wrth i'r Swyddogion ei lithro i ffwrdd.

Caethwas oedd Alexander rhagor, tra'n iach byddai'n gweithio ond wedyn gwyddai y byddai'n cael ei ddileu.

Am ddau ddeg tri diwrnod solat roedd Alexander wedi gweithio, ond gwelai bod ei amser yn brin, byddai'r Natsiaid yn penderfynnu ei fod yn anefnyddiol a wedyn yn ei ddileu.

Roedd Alexander yn gwrthod cael ei ladd gan ddulliau aflan y Natsiaid, roedd ynatu am farw yn urddasol a nid fel caethwas.

Felly un noson ar ôl gorffen diwrnod llafurus o waith, penderfynodd y byddai yn cymryd ei fywyd, o leia fel yma byddai'n cael marw mewn ffordd yr oedd o yn ei ddewis. Clymodd ei felt yn sownd i'r to gan wedyn ei roi o amgylch ei wddf, cymerodd amser i feddwl am y geiriau uwchlaw y fynedfa 'Arbet Macht Tre', 'Rhyddid drwy waith'. Mor eironig oedd y geiriau yn ei farn, yr unig ryddid oedd marwolaeth.

STEPHEN JONES

† Trefnwr Angladdau
Llanberis ac Ardal yr Eco

(01286) 870 870

(01286) 872 491

(07770) 265 976

Cwmni Annibynnol Lleol
Profiadol




CARPEDI GERAIN OWEN

GWERTHWR CARPEDI, TEILS CARPED A FEINYL
CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC

FFONIWCH UNRHYW AMSER:

WAUNFAWR (01286) 650552

CROESAIR GORFFENNAF



1 ar draws ydi pob un o'r atebion sydd heb gliwiau iddynt.

Ar Draws!

- | | |
|---|---|
| 7 Darn bach o ledr a brynwyd yn lleol (4) | 21 Llys barn (7) |
| 11 Ffŵl (5) | 22 Yn ffôl, neu hyd yn oed o'i gof (5) |
| 12 Plygu gerbron (5) | 24 Ar hon y bydd 1 ar draws yn teithio! (5) |
| 13 Cyffyrddiad serchog? (5) | 25 Merch Ogwen? (5) |
| 14 Y di-nod yn arwyddo! (6) | 28 Gwneud sŵn mawr, cras (3) |
| 15 Dyma geg 1 ar draws mae'n debyg! (3) | 29 4840 llathen sgwâr (3) |
| 16 Cerfluniau (6) | 32 Trachwant (5) |
| 20 Siarad distaw am rywbeth? (9) | 36 Seibiant o flaen cydganu (5) |
| 23 Rhywbeth clytiog, blêr (7) | 37 Di-drefn (5) |
| 26 Y dryswch yr ysgrifennodd T.R. H. amdano (6) | 38 Matsen (5) |
| 30 Cyfanweithiau (7) | 39 Colli bywyd (4) |
| 31 Antur Mona yn hanner cysgu! (9) | 40 Person sy'n cysylltu (4) |
| 33 Gafr ifanc o lethrau'r mynydd? (3) | 42 Gweler 45 ar draws (3) |
| 35 Un sy'n talu am gael byw yn eiddo rhywun arall (6) | |
| 41 Gorchwyl beiddgar neu beryglus (5) | |
| 43 Na, Nia, dyna natur y peth! (5) | |
| 44 Dyn yn pigo? Mae'n swinio felly (5) | |
| 45 Fel 42 i lawr, 'does dim yn uwch (4) | |
| 46 Peth wedi ei wau (3) | |
| 47 Gofidiau (8) | |

I Lawr

- 1 a 34 (5,2,2)
 2 Buarth neu iard i gadw gwair (5)
 3 Rhan o bennod o'r Beibl (5)
 4 Y diwethaf un (4)
 6 Gwisg mynach (4)
 8 Cystadluacth ym Mangor a Sir Fôn! (3)
 10 Gosod mewn tamaid o dir diffaeth (4)
 17 Ar brydiau... (7)
 18 ... bydd rhan o'r wlad yn cynnwys irwyrdd (3)
 19 Mae peth o'r cabled yn fedrus iawn! (3)
 20 Cydau wedi eu gwneud o ddefnydd garw (5)

Derbyniais atebion i groesair Mehefin gan Olwen Jones, Bethel; Olwen Owen, Vera Griffiths, Nan Owen a Moreen Lennon, Llanberis; Nerys Jones, Talwrn; Margaret W. Roberts a Mair Evans, Caernarfon; Nansi Davies, Rhuthun; Alvona Jones, Prestatyn; Rosemary Williams, Mynydd Llandegai; Jennie Williams, M. P. Jones a Rhiannon Pritchard-Jones, Clynog; Eluned Jones, Trefor; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; G. Gill, Bangor; E. E. Jones, Rhoshirwaun; Ceridwen Williams a Huw Tegid Roberts, Llanrug; Catherine A. Jones a Jean Hughes-Jones, Rhiw, Pwllheli; N. Hughes, Cwm y glo ac Ellen Pritchard, Garndolbenmaen.

Methodd nifer ohonoch gyda'r ateb i 48 ar draws - 'Lle gwyrdd - na, nid y wlad'; felly nid Iwerddon oedd yr ateb ond Gwerddon.

O'r rhai cywir ymgais Dilys A. Pritchard-Jones, Ynys, Abererch, Pwllheli LL53 6YP ddaeth o'r het.


RHODDION

£10: Dienw, Deiniolen, Dilys Baylis, Llanberis.

£5: Gareth, Manon, Gethin a Guto, Dolserau, Stad Eryri, Bethel.

£5: Wil a Beryl Williams, Arfryn, Llanrug. I a M. Williams, Dinorwig House, Brynrefail, Teulu y diweddar R. D. Williams, 3 Bro Deiniol, Deiniolen. Mrs Mary Catherine Jones, Tan y Caerau, Clwt y Bont. G. Ll. Roberts, 8 Ffordd Tŷ Du, Llanberis. Ael y Bryn, Stryd Newton, Llanberis.

Cefnogwch
ein
Hysbysebwyd



Llongyfarchiadau a £5 i chi (i'w ychwanegu at ei gwobrau mynych gan y BBC!)

Ar ôl cwblhau croesair mis Gorffennaf gyrrwch eich atebion at Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun LL55 3HE erbyn Awst 19.



**ORIEL
CWM
Cwm y Glo**

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio

Lluniau o bob math

ar gael ar y safle

Prisiau Rhesymol

Arddangosfa o luniau

gwreiddiol gan

Artistiaid Lleol

Richard S. Humphreys

**IEUAN
WILLIAMS**

Glanffrwd
DEINIOLEN

(01286) 870484

► Bysiau o 12 i 53 sedd

► Teithiau Lleol a Thramor


► Gwaith Contract

► Telerau arbennig i
bensinywyr, myfyrwyr a
phlant ysgol

**H. E. HUGHES
A'I FEIBION**

Bwthyn Gadlys
LLANBERIS

FFôn: 870444



- Gwerthwyr Glo ac
- Olew Gwres Canolog i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

Dylan Griffith

**TREFNWR ANGLADDAU ANNIBYNNOL a LLEOL
TROS-YWAEN, PENISARWAUN**

**Yn gwasanaethu'r holl ardal yr ECO ac
ymhellach i ffwrdd**

Gwasanaeth teimladwy,
urddasol a phersonol.

24 awr y dydd

Ffoniwch: **Dylan (Llys) ar 871833**

Symudol: **07778 127394**

HEFYD

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA

Cyrhaeddwch mewn steil - mewn cerbyd Rolls Royce
ar gyfer priodasau, pen-blwyddi ac
achlysuron arbennig eraill



CHWARAEON

Tlws yr Eco 2002

Gyda llethrau'r Wyddfa yn glir fel grisial, cyfarfu'r 'llwythi' unwaith eto eleni. Bydd y gystadleuaeth hon yn gofiadwy oherwydd ei bod wedi torri tir newydd. Oherwydd nifer y timau yn cystadlu, roedd yn rhaid rhedeg y gystadleuaeth dros ddwy noson.

Ar nos Fercher, croesawyd timau pêl-droed Bl. 3/4 (12 ohonynt) a'r timau pêl-rwyd (8 ohonynt) i feysydd ysgol gynradd Llanrug. Daeth torf sylweddol i gefnogi ac ni chawsant eu siomi. Cafwyd tair awr o aadloniant pur - a dim arwydd o drafferthion o gwbl. Noson i'r fro yw hon a gall y fro ymfalchïo yn ei llwyddiant. Diolch enfawr i Robin Williams a'i staff, rhieni yr ysgol am gynnal y siop a'r llu o 'ddyfarnwyr' yn y ddwy gystadleuaeth, ac am y ffordd wych yr oeddent yn ymwneud â'r plant. Rhaid dweud fod rhai o'r plant yn siomedig nad oedd dyfarnwr 'pen moel' ar gael - efallai y gallwn eillio Maldwyn erbyn y tymor nesaf!

Yn y gystadleuaeth pêl-rwyd, aeth y dwbwl eleni i i dimau Ysgol Bethel, gyda'r tîm 'A' yn gyntaf a'r tîm 'B' yn ail yn y gystadleuaeth Bl.3/4. Yn yr oedran hŷn, enillodd Bethel 'B' eu pedair gêm, gan rwydo'n drwm. Ar sail mwy o 'rwydi' cipiwyd yr ail safle gan Llanberis 'A'. Diolch i'r llu o rieni a ddaeth i gefnogi'r plant ac i Siân ac Enid am ddyfarnu gydol y noson. O siarad a'r athrawon, mae'n ymddangos y bydd llif dda o chwaraewyr dawnus yn cyrraedd Ysgol Brynrefail maes o law.

Roedd dipyn o awyrgylch Cwpan y Byd yn y pêl-droed. Yr haul yn gwenu a digon o liwiau disglair ar, ac oddi ar, y cae. Y mae'r cydweithio rhwng y timau yn glod iddynt. Yn sicr, sefydlwyd record i'r gystadleuaeth gyda 6 tîm o Lanrug, pob un â'i reolwr/hyfforddwr. Uchafbwynt y gystadleuaeth pob blwyddyn yw gwên y plant wrth gystadlu. Cystadleuaeth iach yw hon.

Oherwydd nifer y timau cafwyd dwy gynghrair o 6, a phencampwyr y ddwy adran yn cyfarfod yn y rownd derfynol. Wedi'r gemau 'rhagbrofol' dyma oedd y scyflfa.

Diolch i bawb fu'n hyfforddi'r plant ac yn cynorthwyo ar y noson. Diolch yn arbennig wrth gwrsi Richard am drefnu'r cwbl.



Y Timau pêl-droed yn Nhlws yr Eco Bl 5/6, y rhai cyntaf i chwarae ar gae pêl-droed newydd Bethel.

Grŵp A

	GD	GE	PT
Bethel A	12	0	14
Llanrug 'A'	5	1	13
Bethel 'C'	1	1	10
Llanberis 'B'	1	4	9
Llanrug 'F'	1	5	9
Llanrug 'B'	0	9	5

Grŵp B

	GD	GE	PT
Deiniolen	6	0	14
Bethel 'B'	4	0	13
Llanrug 'C'	2	2	11
Llanrug 'D'	2	3	10
Llanberis 'A'	1	2	9
Llanrug 'E'	0	7	5

Rownd derfynol felly rhwng Bethel a Deiniolen, deiliaid y tlws. Cafwyd gêm dda iawn gyda'r bêl yn tasgu o un gôl i'r llall. Cafwyd sawl arbediad da gan y ddau gôl-geidwad ond, dwy gôl o fantais i Ddeiniolen oedd hi ar y diwedd, a'r tlws yn dychwelyd i'r topia. Nid oes gwirionedd yn y si fod Maxwell, y rheolwr, yn gadael am feysydd bras y Premiership! Diolch iddo am ei waith gyda'r tîm. Diolch hefyd i David Philips am groniclo yr holl ganlyniadau.

Eto eleni, gwelwyd cynnydd yn y nifer o enethod oedd yn britho'r timau. Yn amlwg, nid ydym yn bell o gael tîm merched yn yr ardal. Y mae'r deunydd crai yma'n amlwg.

Ymlaen i'r ail noson a chystadleuaeth pêl-droed Bl. 5/6. Croesawyd ni i faes newydd clwb Bethel, gcr Capel Cyscgr. Diolch i'r pwyllgor gweithgar am y gwahoddiad ac yn enwedig, i Alwyn ac Andrew am eu gwaith caled o baratoi y macs. Rocdd pawb yn gwerthfawrogi'r ymdrech yn fawr iawn ac yr oedd y maes

parcio hefyd yn gaffaeliad.

Timau o Fethel, Llanrug a Llanberis oedd yn herio'i gilydd, gyda phob tîm yn chwarae yn erbyn ei gilydd. Yr oedd y cae mewn cyflwr ardderchog a gwelwyd gwledd o bêl-droed, gyda phasio da. Fel yn y blynyddoedd a fu, gwelwyd fod gôl-geidwaid addawol yn y fro. Cafwyd ambell arbediad cofiadwy. A'r merched! Digon o sgiliau a stamina. Roedd gwyllo Siân Jones o dîm Bethel 'B' yn gwneud i mi demlo'n euog. Y fath sgiliau ac ysgyfaint i'w galluogi i redeg drwy'r nos.

Gemau hawdd! Dim o gwbl. Bethel 'A' v Bethel 'B'; Llanrug 'A' v Llanrug 'B'. Sôn am daclo, a does dim angen sôn am Lanrug yn erbyn Llanberis. Mae'r 'elyniaeth' yma yno o'r crud! Wedi'r gemau rhagbrofol y sefyllfa oedd:

	GD	GE	PT
Bethel 'A'	6	2	10
Llanrug 'B'	0	8	5
Llanberis	4	4	8
Bethel 'B'	3	4	7
Llanrug 'A'	6	1	10

Bethel yn erbyn Llanrug am y darian. Chwip o gêm, taclo grymus, pasio da a digon yn digwydd yng ngheg y gôl. Sawl cyfle yn yr hanner cyntaf o ddeng munud ond, dim gôl. Bethel yn ymosod yn gryf ond Llanrug yn beryglus yn gwrthymosod. Gyda hanner munud ar ôl, croesiad i geg gôl Bethel a'r bêl yn taro un o'r amddiffynwyr i'w gôl ei hun - yr un fath a'r tymor diwethaf. Y darian felly i Lanrug. Chwe awr a hanner o gystadlu, 280 o blant, dim trafferth o gwbl. Cefnogi iach. Blinedig wrth gwrs, ond mi ddaw y flwyddyn nesaf.

CWPN Y BYD

Wel, pwy sydd am ennill? Rwyf yn ysgrifennu hyn cyn gêm Lloegr a Brasil. A fu'r fath gystadleuaeth yn cynnwys cyn gymaint o ganlyniadau annisgwyllo? Yn amlwg, nid oes timau gwan ar y llwyfan rhyngwladol erbyn hyn. Mae hyfforddi a threfniadaeth yn amlwg ym mhob un o'r timau.

Ai breuddwyd yw gobeithio y gwelwn ni Gymru yng Nghwpan y Byd 2006? I lwyddo, rhaid cael cefnogaeth cenedl. Mae'r daith yn dechrau yn y Ffindir ym mis Medi, yng nghystadleuaeth Ewrop.

Soniwyd y mis yma lawer am wreiddiau'r gêm ym mro'r Eco. Beth am gefnogi ein timau lleol y tymor nesaf? Hefyd beth am fentro i'r Oval neu Ffordd Farrar am gêm ganol wythnos? Roeddwn yn Nulyn y diwrnod y cafod Eire gêm gyfartal gyda'r Almaen (y tîm a gurwyd gan Gymru 1-0). Y fath awyrgylch. Y fath gefnogaeth. Buaswn yn rhoi rhywbeth i weld y fath awyrgylch yng Nghymru yn 2006!

Cario'r Baton

Yn ddiweddar bu 'baton' gemau'r Gymanwlad yn cael ei gario ledled y gogledd ar ei daith i Fanceinion. Yn ardal Biwmares, carwyd y baton gan Gwyn Arfon Williams o Lanberis. Mae Gwyn Arfon, sy'n 17 oed, wedi datblygu yn rhedwr addawol iawn yn y ddwy flynedd olaf. Mae, erbyn hyn, yn aelod o dîm Rhedeg Mynydd Cymru. Gobeithio y bydd y profiad o gario'r baton yn symbylu Gwyn i ennill ei le yn nhim Cymru ar gyfer gemau'r gymanwlad mewn pedair blynedd.